# PARTNERIAETH PROSESU COSBAU CYMRU
# (WPPP)

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Cyngor Sir Ceredigion**
**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Cyngor Gwynedd**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Cyngor Sir Penfro**
**Cyngor Sir Powys**
**Cyngor Bro Morgannwg**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

# GWEITHDREFNAU GORFODAETH PARCIO SIFIL

Adolygwyd ddiwethaf Awst 2013


CYFLWYNIAD ... 5
Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru ... 5
SUT I BARCIO ... 6
SYSTEM SIART LIF ADFER RHYBUDDION TALU COSB ... 9
HERIAU / SYLWADAU RHYBUDD TALU COSB ... 11
Her yn erbyn Cyflwyno Rhybudd Talu Cosb ... 11
Sylwadau Ffurfiol yn erbyn Cyflwyno Rhybudd Talu Cosb ... 11
Rhybudd Gwrthod neu Dderbyn Sylwadau Ffurfiol ... 11
Rhybudd Talu Cosb – Cyfnod Disgownt ... 12
CÔDAU TRAMGWYDDIADAU SAFONOL AC AMSEROEDD SYLWI ... 13
GWEITHDREFNAU PENODOL ... 19
Cerbydau wedi'u gadael ... 19
Gwyliau'r Banc - Cyfyngiadau Perthnasol. ... 19
Ymweliadau â'r Banc ... 19
Mynedfeydd wedi'u blocio ... 19
Allanfa lle parcio wedi'i blocio ... 20
Bathodynnau Glas ... 20
Sefydliadau Moduro ... 21
Cerbydau wedi torri: (Gweler hefyd "Cerbydau wedi'u fandaleiddio") ... 21
Adeiladwyr / Crefftwyr ... 22
Arosfannau Bysiau ... 23
Carafanau ac ôl gerbydau. ... 23
Sefydliadau Gofal ... 23
Cerbydau ar werth / i'w llogi ... 23
Heriau / Sylwadau gyda thâl i'w canlyn ... 23
Llyfrau Nodiadau'r Swyddogion Gorfodi Sifil ... 23
Clampio a Symud ... 24
Cwynion yn erbyn Swyddogion Gorfodi Sifil ... 24
Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor ar Ddyletswydd ... 24
Mynychu Llys – Ar Reithgor, fel Tyst neu fel Diffynnydd ... 24
Apwyntiadau Deintydd / Meddyg ... 25
Disgrifiad o'r Cerbyd – ar y Rhybudd Talu Cosb ... 25
Gofeddebau a Gohiriadau ... 25
Gyrwyr / Teithwyr gydag anableddau ... 26
Cerbiau Isel ... 26
Parcio Dwbl ... 27
Yfed a Gyrru ac Arestiadau Eraill ... 27
Gollwng neu Godi Teithwyr ... 27
Dyletswyddau Argyfwng ... 28
Asiantau Gorfodaeth (Beilïaid, gynt) ... 28
Gwerthwyr Tai ... 28
Cerbydau Eithriedig ... 28
Ymladdwyr Tân ar Alwad ... 29
Parcio ar y palmant ... 29
Angladdau a Phriodasau ... 29
Modurdai - Cerbydau'n cael eu gadael heb neb yn eu gwarchod ... 30
Gwydrwyr ... 30
Cerbydau Adrannau'r Llywodraeth ... **Error! Bookmark not defined.**
Cerbydau Hacni / Llogi Preifat ... 30
Llinellau Croes mewn Meysydd Parcio ... 30
Sylweddau / Cemegolion Peryglus ... 31
Cytundeb Llogi ... 31
Gwyliau ... 31
Aelodau a Swyddogion eraill yn ymyrryd yn y broses o Herio a Chyflwyno Sylwadau ... 32
Deddfwriaeth ... 32
Llwytho / Dadlwytho ... 32

Lleoliad – Anghywir ........ 33
Colli Goriadau ........ 33
Argyfyngau Meddygol ........ 33
Camsillafu Enw Perchennog ........ 33
Amgylchiadau Lliniaru ........ 33
Ffonau symudol: ........ 34
Cilfannau Beiciau Modur ........ 34
Honiadau gan Fodurwr nad yw’n teimlo’n dda ........ 34
Modurwr nad yw'n Berchennog nac yn Geidwad neu sydd wedi gwerthu'r cerbyd ar adeg y Tramgwyddiad ........ 34
Rhybudd Gwrthod neu Dderbyn Sylwadau Ffurfiol ........ 34
Cyfnod Sylwi – Cyn rhoi Rhybudd Talu Cosb ........ 35
Peiriannau Talu ac Arddangos – Heb sylweddoli bod un yno ........ 35
Peiriant Talu ac Arddangos – Ddim yn gweithio ........ 35
Tocynnau Talu ac Arddangos ........ 35
Rhybudd Talu Cosb – Cyflwyno Cynamserol ........ 36
Rhybudd Talu Cosb – Cerbyd yn y lle anghywir ........ 36
Rybuddion Talu Cosb – Wedi’u tynnu oddi ar y cerbyd / heb eu derbyn ........ 36
Rhybuddion Talu Cosb – Amser i Dalu / Talu fesul Tipyn ........ 37
Rhybudd Talu Cosb – Cerbyd wedi’i yrru ymaith cyn i Rybudd Talu Cosb gael ei osod. ........ 37
Cyfradd Talu Cosb ........ 37
Hawlenni (neu Drwyddedau) mewn Meysydd Parcio ........ 37
Plymwyr, Trydanwyr a Gosodwyr Nwy ........ 37
Swyddogion yr Heddlu ar Ddyletswydd ........ 38
Rhoddodd Swyddog yr Heddlu / Swyddog Gorfodi Sifil Ganiatâd i Barcio ........ 38
Beichiogrwydd - Rhieni gyda Phlant Ifanc. ........ 38
Cofnodion o Dramgwyddiadau Parcio yn y Gorffennol ........ 38
Eiddo Preifat ........ **Error! Bookmark not defined.**
Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus ........ 38
Cerbydau Cyfleustodau Cyhoeddus ........ 38
Atebolrwydd Perchennog Cofrestredig ........ 39
Parcio i Drigolion (Ar y Stryd) ........ 39
Arwyddion / Marciau Ffyrdd – Ar Goll, Wedi’u Cuddio neu Wedi Torri ........ 40
Cerbydau’r Post Brenhinol a Darparwyr Gwasanaethau Cyffredinol ........ 41
Faniau Diogeledd ........ 41
Masnachwyr Stryd ........ 41
Cilfanau Gohiriedig ........ 41
Tariff – Codi Taliadau Parcio heb Gyhoeddusrwydd ........ 41
Rhesi Tacsi ........ 42
Graddnodi Amser / Dyddiad y Cyfrifiadur Llaw ........ 42
Gorchymyn Rheoleiddio Traffig - Annilys ........ **Error! Bookmark not defined.**
Cefnffyrdd ........ 42
Symud Cerbyd heb Awdurdod ........ 42
Gwisg – Swyddogion Gorfodi Sifil ........ 42
Cerbydau wedi'u Fandaleiddio ........ 43
Cerbydau wedi’i gadael i gael mynediad ........ 43
Cerbydau wedi'u lladrata ........ 43
Ymwelwyr â gwledydd Prydain ........ 43
Cerbydau Cludiant Gwirfoddol Cleifion ........ 43
DIFFINIADAU ........ 44
Tystysgrif Cyhuddiad ........ 44
Cerbyd Masnachol - Diffiniad ........ 44
Cofrestru Dyled ........ 44
Cofrestru Dyled - Hysbysiad ........ 44
Goddeb ........ 44
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) ........ 44
Nwyddau - Diffiniad o pan mae'n berthnasol i Lwytho / Dadlwytho ........ 45

Cilfannau Parcio Mandadol a Chynghorol.................................. **Error! Bookmark not defined.**
Ymholiad Peidio Talu Cosb ac Ymateb i'r Asiantaeth Gyrwyr a Cherbydau - VQ4 a VQ5........ 45
Rhybudd i Berchennog........................................................................................................ 45
Rhybudd Talu Cosb............................................................................................................ 45
Perchennog Cofrestredig .................................................................................................... 46
Gohirio Cilfan Barcio .......................................................................................................... 46
Canolfan Gorfodaeth Traffig.............................................................................................. 46
Tribiwnlysoedd Cosbau Traffig.......................................................................................... 46

## *CYFLWYNIAD*

Golyga Gorfodaeth Parcio Sifil fod Awdurdodau Lleol yn rheoli strydoedd a meysydd parcio ac yn rhyddhau adnoddau'r heddlu. Gall goruchwylwyr Parcio, a elwir yn Swyddogion Gofrodaeth Sifil, gyflwyno Rhybuddion Talu Cosb ar gerbydau sydd wedi'u parcio'n amhriodol. Erbyn hyn, mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu system 'cosbau gwahaniaethol' sy'n golygu, os byddwch yn derbyn Rhybudd Talu Cosb, bydd maint y gosb yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghriafft, byddwch yn talu mwy fel arfer am barcio ar linellau melyn dwbl nag am aros yn rhy hir mewn un lle.

Y nod yw rheoli parcio ar ac oddi ar y stryd drwy orfodaeth parcio effeithiol i wella amodau i bobl yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r ardaloedd.

Anela'r ddogfen hon at:

- Atgoffa pobl sut i barcio'n ofalus ac yn ystyriol
- Nodi'r camau y mae'n rhaid eu dilyn unwaith mae Rhybudd Talu Cosb wedi'i gyflwyno
- Amlinellu tramgwyddiadau parcio cyffredin a'r amseroedd sylwi
- Cynnig arweiniad ar orfodi tramgwyddiadau parcio penodol ac amgylchiadau penodol
- Cynnig arweiniad ar ddiddymu Rhybudd Talu Cosb
- Rhoi diffiniadau o rai termau a ddefnyddir yn aml
- Egluro'r byrfoddau a ddefnyddir yn aml

Mae cynnwys y ddogfen yn deillio o:

- Ofynion cyfreithiol
- Ymarferion presennol
- Ymarfer gorau derbyniol
- TMA 04 Canllaw Gweithredol / dogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Orfodi Parcio Sifil
- Profiad pob un o'r awdurdodau partner
- Argymhellion y Tribiwnlys Cosbau Traffig ynghylch lliniaru

Mae'n amhosibl manylu ar bob achos a bydd Swyddogion Gorfodi Sifil yn cael cyfarwyddid i gyflwyno Rhybudd Talu Cosb i bob cerbyd sy'n tramgwyddo rheolau parcio (oni bai y nodir yn wahanol yn y ddogfen hon) ar ôl i unrhyw gyfnod sylwi a ganiateir ddod i ben. Dim ond staff gydag awdurdod fydd yn cael diddymu Rhybudd Talu Cosb. Dim ond ar ôl derbyn sylwadau ysgrifenedig yn erbyn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb y gellir diddymu.Nid yw Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu diddymu na thynnu Rhybudd Talu Cosb yn ôl unwaith y bydd wedi'i gyflwyno.

**Bydd pob sylw yn erbyn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb yn cael ei ystyried yn unigol.**

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a bydd yn adlewyrchu'r ymarfer gorau ar adeg ei hadolygu.

## *Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru*

Mae'r Bartneriaeth, sy'n rhan o Gyngor Sir Ddinbych, yn gweithio ar ran pob un o'r awdurdodau partner er mwyn cefnogi'r gwaith gorfodi trwy ymdrin â'r heriau, y sylwadau, y taliadau a thrwy brosesu'r holl rybuddion talu cosb sy'n cael eu rhoi.

Mae Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bro Morgannwg a Cyngor Sir y Fflint a yn gweithio mewn partneriaeth ar gyfer prosesu Rhybuddion Talu Cosb.

# SUT I BARCIO


Gall parcio'n anghywir, megis ar linellau melyn dwbl neu sengl, ar lôn fws, ar lonydd beiciau neu mewn cilfan parcio trigolion, hyd yn oed am ychydig o funudau, achosi anghyfleustra a hyd yn oed berygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd ac i gerddwyr.


Mae'r awdurdodau partner yn gobeithio y bydd modurwyr yn debycach o barcio'n ddiogel ac yn gyfreithiol os yw'r rheolau parcio yn cael eu gorfodi.  Gall hynny leihau'r anghyfleustra a'r perygl sy'n cael ei achosi i rai sy'n parcio'n ddiogel ac i ddefnyddwyr arferol y ffordd.

Bydd dilyn y rheolau syml hyn yn eich helpu i barcio heb achosi trafferth i bobl eraill:

- Cofiwch chwilio am linellau ar y ffordd bob amser a, ble bo'n berthnasol, yr arwyddion wrth ochr y ffordd hefyd.
- Gwnewch yn siŵr bob amser eich bod wedi parcio o fewn marciau'r gilfan
- Gwnewch yn siŵr nad yw unrhyw un o olwynion eich cerbyd yn gorwedd ar linell(au) melyn
- Peidiwch â chymryd, oherwydd eich bod wedi parcio y tu ôl i linellau melyn, nad ydych yn tramgwyddo gorchymyn rheoliad traffig wrth barcio yno
- Gallai rhai mannau ble rydych yn meddwl y gallwch barcio fod, mewn gwirionedd, yn rhan o'r briffordd ac yn cael eu gorfodi felly
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr arwyddion mewn meysydd parcio talu ac arddangos
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn prynu'r tocyn talu ac arddangos priodol mewn meysydd parcio yn unol â'r cyfarwyddiadau ar yr arwyddion
- Gwnewch yn siŵr fod gennych ddigon o newid i brynu tocyn Talu ac Arddangos cyn parcio mewn lle y mae'n rhaid talu
- Mewn meysydd parcio gwnewch yn siŵr eich bod yn arddangos eich tocyn talu ac arddangos yn glir
- Peidiwch ag aros yn hirach nag sy'n cael ei ganiatáu gan yr arwyddion neu'r tocyn rydych wedi'i brynu
- Peidiwch â blocio mynedfeydd i eiddo preifat – cerbiau isel
- Peidiwch â pharcio'n ddwbl
- Peidiwch â pharcio ar lwybrau troed
- Peidiwch â pharcio ar groesfannau cerddwyr neu ar y marciau igam ogam gwyn gerllaw'r groesfan
- Peidiwch â pharcio ar y marciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' neu ar y marciau igam ogam melyn gerllaw ysgolion

Mae'r canlynol yn rhai o'r cyfyngiadau cyffredin y byddwch yn eu gweld ac i'ch atgoffa o beth maen nhw olygu:


| | |
|---|---|
|  | Llinellau melyn dwbl<br><br>ar ymyl ffordd yn golygu dim aros <u>ar unrhyw adeg</u>.  Ffodd bynnag, gallwch aros i ollwng teithwyr allan neu i mewn i'r cerbyd ac i lwytho a dadlwytho **oni bai** bod yno hefyd gyfyngiadau llwytho.   Does dim rhaid dangos arwydd ar gyfer cyfangiad parcio parhaol lle mae llinell felen ddwbl.  Mae'r cyfyngiadau a osodir gan y marciau hyn yn cychwyn o ganol y ffordd at y llinell eiddo ar ochr y ffordd lle mae'r marciau (gan gynnwys cilfannau, lleiniau a phalmentydd).<br><br>Gallai rhai cyfyngiadau llinell felen ddwbl yng Nghymru fod yn rhai tymhorol, sy'n golygu mai dim ond yn ystod yr amseroedd a nodir ar yr arwydd cyfagos y bydd y rhain yn cael eu gorfodi. |




**Llinellau melyn sengl**

ar ymyl y ffordd ac yn golygu na allwch aros rhwng yr amseroedd sy'n cael eu dangos ar yr arwydd cyfagos. Ffodd bynnag, gallwch aros i ollwng teithwyr allan neu i mewn i'r cerbyd ac i lwytho a dadlwytho oni bai bod yno gyfyngiadau llwytho.


Mae’r cyfyngiadau a osodir gan y marciau hyn yn cychwyn o ganol y ffordd at y llinell eiddo ar ochr y ffordd lle mae’r marciau (gan gynnwys cilfannau, lleiniau a phalmentydd).




**Cyfyngiadau Llwytho**

yn cael eu dangos gan linellau melyn ar y cerb neu ar ymyl y ffordd. Maen nhw'n dangos na ellir llwytho na dadlwytho rhwng yr amseroedd sy'n ymddangos ar yr arwyddion.

Mae llinellau melyn ar y cerb yn golygu na ellir llwytho na dadlwytho ar unrhyw adeg. Nid yw hyd yn oed deiliaid Bathodyn Glas gyda bathodynnau a chlociau amser yn cael parcio ble mae cyfyngiadau llwytho.





**Cilfannau Aros Cyfyngedig**

yn cael eu dangos gan farciau ar y cilfannau a chan arwyddion sy'n dangos am faint o amser y gallwch barcio yn y gilfan.


Cofiwch sylwi ar yr wybodaeth 'Dim Dychwelyd' ar yr arwydd. Mae'n golygu nad oes gennych hawl i ddod yn ôl i gilfan gyfyngedig o fewn y cyfnod a nodir. Bydd Swyddogion Gorfodi Sifil yn cofnodi pob cerbyd sydd wedi parcio mewn cilfannau aros cyfyngedig. Bydd cerbydau sy'n aros dros yr amser a ganiateir neu sy'n dychwelyd i'r gilfan o fewn y cyfnod a nodir yn derbyn Rhybudd Talu Cosb.

Cofiwch hefyd y gall rhai cilfannau fod y rhai 'defnydd deuol' (er enghraifft trigolion ar rai adegau / aros cyfyngedig ar adegau eraill neu lwytho rhwng 0800 - 1100 yn unig, aros cyfyngedig ar adegau eraill)




**Cilfannau Llwytho**


mae'r rhain yn gilfannau wedi'u marcio'n wyn gyda'r geiriau 'Llwytho'n unig' ac arwydd gyda'r symbol 'trol' wen ar gefndir glas. Bydd yr arwydd yn dangos yr adegau pryd y gellir defnyddio' gilfan ac a yw llwytho a dadlwytho'n cael ei gyfyngu i rai mathau o gerbydau. Ni chaiff cerbydau barcio yma heb fod yn llwytho neu'n dadlwytho.




**Arosfannau Bysiau ar Glirffyrdd**



Ni ddylid parcio mewn arosfannau bysiau ar glirffordd yn ystod ei gyfnod gweithredu. Bydd y cyfnod gweithredu'n cael ei ddangos ar arwydd gerllaw.

Ceir arosfannau bysiau hefyd ar y briffordd. Unwaith eto, ni ddylid parcio ar arhosfan bws yn ystod ei gyfnod gweithredu.




**Rhesi Tacsi**

Ni ddylid parcio mewn Rhes Tacsi yn ystod ei chyfnod gweithredu. Bydd y cyfnod gweithredu'n cael ei ddangos ar arwydd gerllaw. Os nad oes amser wedi'i nodi, mae'r cyfyngiadau bodoli 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos.

| | |
|---|---|
|  | **Baeau parcio ar gyfer Defnydd Penodol**<br>Chewch chi ddim parcio mewn mannau parcio ar gyfer defnyddwyr penodol megis Meddygon, deiliaid Bathodynnau Glas neu drigolion oni bai bod gennych chi hawl i wneud hynny.   Bydd arwyddion yn nodi pwy sydd â hawl i barcio a pha bryd y mae cyfyngiadau. |
|  | **Baeau yn cael eu rhannu a rhai rhan amser**<br>Weithiau, bydd yn rhaid i faeau fod ar gael ar gyfer dau neu fwy o ddefnyddiau ar wahanol adegau o'r dydd, neu fod ar gael am rannau o'r diwrnod yn unig. |
|  | **Marciau Igam Ogam Croesfannau Cerddwyr**<br>Ni ddylid parcio ar groesfan cerddwyr neu lle mae' marciau igam ogam.  Mae'r marciau yno yn benodol er mwyn diogelu cerddwyr. |
|  | **Ysgol Cadwch yn Glir**<br>Rhaid i chi beidio â pharcio ar y marciau igam ogam y tu allan i ysgol.  Ni ddylai cerbydau aros ar y mynedfeydd hyd yn oed i godi a gollwng plant.  Mae parcio ar farciau igam ogam y tu allan i fynedfeydd ysgolion yn anystyriol a gallai fod yn beryglus.<br><br>'Mae'r rheoliadau 'Dim aros' sy'n cael eu harddangos ar arwyddion gerllaw yn cael eu gorfodi. |

**Defnyddiwch y fersiwn gyfredol o Reolau'r Ffordd Fawr pob amser**

# SYSTEM SIART LIF ADFER RHYBUDDION TALU COSB

Mae’r siart llif yn dangos:

- Cylch bywyd Rhybudd Talu Cosb
- Sut y byddwn yn gorfodi'r broses o adfer Rhybudd Talu Cosb a
- Y dewisiadau sydd ar gael i gyflwyno sylwadau yn erbyn rhoi Rhybudd Talu Cosb.

Bydd maint y gost ar y dechrau'n dibynnu ar lefel y tramgwydd parcio.

Mae'r cosbau ar hyn o bryd yn £70 am y lefel uwch a £50 am y lefel is o dramgwyddo.

Rhoi Rhybudd Talu Cosb
(£50 neu £70 yn dibynnu ar y tramgwyddiad)

<u>Dewis 1</u>
Talu o fewn 14 diwrnod gyda disgownt o 50%, sef £25/£35. Bydd yr achos ar ben.

<u>Dewis 2</u>
Cyflwyno sylwadau anffurfiol yn ysgrifenedig a disgwyl dyfarniad Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud a ydym wedi:

Gwrthod eich sylwadau

Derbyn eich sylwadau

Gallwch:
- Dalu'r Rhybudd Talu Cosb o fewn 14 diwrnod gyda disgownt o 50% sef £25/£35. Bydd yr achos ar ben;
- Talu'r swm llawn o £50/£70 o fewn 28 diwrnod. Bydd yr achos ar ben neu;
- Aros 28 i dderbyn Rhybudd i Berchennog er mwyn gallu cyflwyno sylwadau ffurfiol.

Byddwn yn:
- Diddymu'r Rhybudd Talu Cosb ac yn anfon cadarnhad ysgrifenedig atoch o hynny. Bydd yr achos ar ben.

Os na fyddwn wedi derbyn tâl am y gosb o fewn 28 byddwn yn rhoi Rhybudd i Berchennog i berchennog cofrestredig y cerbyd. Bydd gan y perchennog ddau ddewis (gweller isod).

<u>Dewis 1</u>
Talu'r swm llawn o £50/£70 o fewn 28 diwrnod o dderbyn y Rhybudd i Berchennog. Bydd yr achos ar ben.

<u>Dewis 2</u>
Cyflwyno sylwadau ffurfiol yn erbyn y Rhybudd Talu Cosb o fewn 28 diwrnod o dderbyn y Rhybydd i Berchennog.

Byddwn yn ystyried y sylwadau ac yn hysbysu perchennog y cerbyd yn ysgrifenedig a yw ei sylwadau wedi'u derbyn neu'u gwrthod. Gweler isod.

<u>Derbyn y Sylwadau</u>
Byddwn yn hysbysu'r perchennog cofrestredig yn ysgrifenedig fod yr achos ar ben.

<u>Gwrthod y Sylwadau</u>
Byddwn yn hysbysu'r perchennog cofrestredig yn ysgrifenedig fod y sylwadau wedi'u gwrthod.

Mae gan y perchennog cofrestredig 28 diwrnod i:
- Dalu'r swm llawn o £50/£70 (Bydd yr achos ar ben) neu;
- Ddefnyddio'r ffurflen a oedd gyda'r llythyr yn gwrthod y sylwadau i apelio i ddyfarnydd anibynnol yn y Tribiwnlys Cosbau Traffig.

Os, o fewn 28 diwrnod, nad yw'r perchennog cofrestredig wedi un ai:
- Talu'r gosb, neu;
- Anfon apel i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig

Bydd Tystysgrif Cyhuddiad yn cael ei roi i berchennog cofrestredig y cerbyd a bydd gordal o 50%yn cael ei ychwanegu at y gosb gan ei chynyddu i £75/£105.

Os nad yw perchennog cofrestredig yn ymateb i Dystysgrif Cosb o fewn 14 diwrnod byddwn yn cofnodi'r ddyled yn y Ganolfan Gorfodi Traffig a bydd Rhybudd o Gofrestru'n cael ei roi. Ychwanegir ffi gofrestru ac unrhyw gostau a fydd y Dyfarnydd yn y Tribiwnlys Cosbau Traffig yn eu rhoi. Gweler y dewisiadau pellach isod.

<u>Dewis 1</u>
Talu'r gosb o fewn 28 diwnod o dderbyn y Rhybudd o Gofrestru. Bydd yr achos ar ben.

<u>Dewis 2</u>
Cyflwyno Datganiad Tyst i'r Llys yn gofyn am ddiddymu'r cofrestriad. Bydd y Llys yn dweud wrth y Cyngor os bydd yn derbyn y Datganiad. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y cam nesaf – gwelelr isod.

<u>Dewis 1</u>
Rhoi Rhybudd i Berchennog arall i'r perchennog gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y Datganiad Tyst. Bydd y drefn orfodi'n cael ei dilyn fel y dangosir uchod.

<u>Dewis 2</u>
Diddymu'r Rhybudd Talu Cosb a hysbysu'r perchennog cofrestredig fod yr achos ar ben.

Os na fyddwn wedi derbyn Datganiad Tyst o fewn 21 diwrnod o roi'r Rhybudd o Gofrestru byddwn yn gofyn i'r Llys am Warant i gyflogi asiant gorfodi i adfer y ddyled. Bydd yr asiant gorfodi'n ychwanegu ei ffioedd ei huan at y ddyled..

# HERIAU / SYLWADAU RHYBUDD TALU COSB

## *Her yn erbyn Cyflwyno Rhybudd Talu Cosb*

Gall perchennog y cerbyd gyflwyno her ysgrifenedig anffurfiol yn erbyn y Rhybudd Talu Cosb o fewn 14 diwrnod o'i dderbyn. Wrth gyflwyno'r her gall y perchennog sôn am unrhyw amgylchiadau lliniaru yn ogystal â herio dilysrwydd y Rhybudd.

Bydd y Cyngor yn ymateb yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr her ac mae'n rhaid naill ai rhoi gwybod fod yr her wedi'i derbyn a bod y Rhybudd Talu Cosb wedi'i ddiddymu neu fod yr her wedi'i gwrthod.

Os yw'r her yn cael ei gwrthod mae'n rhaid i'r Cyngor roi rhesymau pam y daethpwyd i'r penderfyniad hwnnw. Bydd y cyfnod disgownt yn cael ei ail gychwyn ac yn parhau am 14 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn gwrthod y sylwadau.

Nid yw cyflwyno her anffurfiol yn amharu, mewn unrhyw ffordd, ar hawl perchennog i gyflwyno sylwadau ffurfiol yn nes ymlaen yn erbyn rhoi'r Rhybudd Talu Cosb i'r Cyngor nac i'r Tribiwnlys Cosb Traffig.

## *Sylwadau Ffurfiol yn erbyn Cyflwyno Rhybudd Talu Cosb*

Rhoddir cyfle i yrrwr cerbyd gyflwyno Sylwadau Ffurfiol yn erbyn Rhybudd Talu Cosb unwaith y bydd wedi cael Rhybudd i Berchennog gan y Cyngor. Rhaid i'r sylwadau gael eu cyflwyno o fewn 28 diwrnod o dderbyn y Rhybudd i Berchennog. Dim ond ar y seiliau canlynol y gellir cyflwyno Sylwadau Ffurfiol:

1. Ni ddigwyddodd y tramgwyddiad honedig.
2. Mae’r Gosb yn fwy na’r swm perthnasol (ar hyn o bryd £50 / £70 yn dibynnu ar lefel y tramgwyddiad)
3. Bod y Gorchymyn Traffig yn annilys
4. Nid y person a dderbyniodd y Rhybudd i Berchennog oedd perchennog / ceidwad y cerbyd pan ddigwyddodd y tramgwyddiad
5. Fod y cerbyd wedi'i gymryd heb ganiatâd
6. Rhoddwyd y Rhybudd i Berchennog i gwmni llogi a rhoddodd y cwmni enw'r person a oedd yn llogi'r cerbyd pan ddigwyddodd y tramgwyddiad
7. Bu amhriodoldeb gweithdrefnol ar ran yr awdurdod gorfodi.
8. Ni ddylai’r Rhybudd hwn fod wedi’i gyflwyno gan fod y gosb eisoes wedi’i thalu:

## *Rhybudd Gwrthod neu Dderbyn Sylwadau Ffurfiol*

Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i anfon Rhybudd o Dderbyn neu o Wrthod o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn sylwadau ffurfiol gan berchennog cerbyd.

1. Rhybudd o Dderbyn. Bydd hyn yn cadarnhau fod y sylwadau wedi'u derbyn a bod cyfrifoldeb y person am y Rhybudd Talu Cosb wedi'i ddiddymu
2. Rhybudd o Wrthod. Mae hyn yn gwrthod y sylwadau’n ffurfiol ac yn rhoi rhesymau clir pam fod y Cyngor wedi dod i’r casgliad hwn. I ganlyn y gwrthodiad bydd ffurflenni a chyfarwyddiadau ynghylch sut y gellir cyflwyno sylwadau pellach i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig. Mae'n rhaid i'r sylwadau gael eu cyflwyno o fewn 28 diwrnod o dderbyn y Rhybudd o Wrthod.

## *Rhybudd Talu Cosb – Cyfnod Disgownt*

Gosodwyd y cyfraddau Rhybudd Talu Cosb ym mhob un o'r awdurdodau partner ar hyn o bryd ar £70 a £50 yn dibynnu ar y math o dramgywddiad parcio o dan sylw. Os yw'r Rhybudd yn cael ei dalu o fewn 14 diwrnod o'i gyflwyno derbynnir swm disgownt o £35 neu £25 (50% o'r gosb wreiddiol) i setlo'r mater yn llawn. Os derbynnir her o fewn 14 diwrnod o gyflwyno'r Rhybudd Talu Cosb bydd y cyfnod disgownt yn dal yn berthnasol am 14 diwrnod arall ar ôl hynny ac, os bydd yr her wreiddiol yn cael ei gwrthod, yna caniateir 14 diwrnod pellach i dalu'r Rhybudd Talu Cosb ar y gyfradd ddisgownt. Nodir hyn yn y Rhybudd Gwrthod.

Os derbynnir yr her yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl cyflwyno'r Rhybudd Talu Cosb ni chaniateir y cyfnod disgownt a bydd y £70 / £50 yn daladwy os bydd yr her yn cael ei gwrthod.

Os yw Rhybudd i Berchennog yn cael ei anfon at berchennog / ceidwad sydd wedyn yn datgan nad yw wedi derbyn y Rhybudd, bydd ganddo neu ganddi hawl i gyflwyno datganiad ysgrifenedig yn dweud hynny. Os yw'n cael ei dderbyn, bydd hawl i dalu'r swm disgownt cyn belled â'i fod yn cael ei dderbyn o fewn 14 diwrnod.

Pan honnir na dderbyniwyd y Rhybudd Talu Cosb, chwilir y system gyfrifiadurol.

1) Er mwyn sicrhau na wnaeth yr un person y fath honiad o'r blaen Os oes hanes o honiadau o'r fath ni fydd y cyfnod disgownt yn cael ei ailgychwyn a bydd yn rhaid talu'r swm yn llawn.
2) Er mwyn gweld a yw'r wybodaeth a gofnodwyd gan y Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau y gosodwyd y Rhybudd Talu Cosb ar y cerbyd
3) Er mwyn gweld a oes tystiolaeth yn cadarnhau ai peidio y gallai'r Rhybudd Talu Cosb fod wedi'i dynnu'n anghyfreithlon gan drydydd partïon.

Mae Offerynau Statudol yn dangos fod perchennog y cerbyd yn dal yn atebol hyd yn oed os yw'r Rhybudd yn cael ei dynnu oddi ar y cerbyd gan, er enghraifft, y tywydd neu berson heb awdurdod. Gweler hefyd 'Dyletswydd Perchennog Cofrestredig'.

Mae'n drosedd i unrhyw berson heblaw'r perchennog, y sawl sy'n gofalu am y cerbyd neu'r awdurdod gorfodi dynnu neu amharu ar Rybudd Talu Cosb sydd ar gerbyd. Gall person sy'n cyflawni trosedd o'r fath gael ei ddirwyo ddim mwy na lefel 2 y raddfa safonol.

# CÔDAU TRAMGWYDDIADAU SAFONOL AC AMSEROEDD SYLWI

Er y gellir cadw golwg ar gerbyd cyn rhoi rhai mathau o Rybudd Talu Cosb, bydd Rhybudd Talu Cost yn cael ei roi yn y fan ar lle bob amser mewn amgylchiadau lle mae gan y Swyddog Gorfodi Sifil dystiolaeth, a fyddai'n cyfiawnhau hynny heb fod yn sylwi ar y cerbyd am y cyfnodau lleiaf a ddangosir.

| **Tramgwyddiadau ar y stryd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Côd** | **Amser Sylwi** | **Tramgwyddiad** | **Lefel Cosb** |
| **01** | 5 munud | **Parcio mewn stryd gyda chyfyngiadau yn ystod oriau penodedig**<br>Mae'r tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / yn parcio ar linell felen sengl neu ddwbl yn ystod oriau penodedig gorfodaeth. | Uwch |
| **02** | 0 munud | **Parcio neu lwytho / dadlwytho ar stryd lle mae cyfyngiadau ar aros, parcio neu ddadlwytho**<br>Mae'r tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / yn parcio ar linell felen sengl neu ddwbl lle y mae yna hefyd waharddiad ar lwytho, sy'n cael ei ddangos gan farciau melyn ar y cerb neu'r gerbydffordd, yn ystod oriau penodedig gorfodaeth. | Uwch |
| **12** | 5 munud | **Parcio mewn man neu barth parcio trigolyn heb ddangos yn glir un ai hawlen neu daleb ar gyfer y lle hwnnw.**<br>Bydd y tramgwyddiad yn digwydd pan fo cerbyd yn disgwyl neu'n parcio o fewn terfynau cilfan neu fan parcio heb ddangos hawlen parcio trigolyn neu ymwelydd ar y cerbyd. | Uwch |
| **16** | 0 munud | **Parcio mewn man lle y dylid cael trwydded heb ddangos trwydded ddilys**<br>Bydd y tramgwyddiad yn digwydd pan fo cerbyd yn aros neu'n parcio o fewn terfynau cilfan neu fan parcio, megis un ar gyfer meddyg, heb ddangos hawlen parcio ddilys ar y cerbyd. | Uwch |
| **20** | 5 munud | **Parcio mewn lle llwytho yn cael ei ddangos gan linell felen**<br>Bydd y tramgwyddiad yn digwydd pan fo cerbyd yn aros neu'n parcio mewn lle llwytho'n sy'n cael ei ddangos gan linell felen. Bydd y llinell felen yn rhedeg rhwng dwy gilfan wedi'u marcio fel cilfannau parcio trigolion neu feddygon. Bydd marciau gwyn sengl ar ddiwedd pob cilfan sydd wedi parcio i ddangos lle mae pob un yn gorffen. Os oes llinell wen ddwbl ar ddiwedd y cilfannau bydd y llinell felen rhwng y cilfannau yn cael ei chyfrif yn dangos stryd lle mae cyfyngiadau parcio a bydd Rhybudd Talu Cosb yn cael ei roi am dramgwyddiad 01. | Uwch |
| **21** | 0 munud | **Parcio mewn cilfan / man lle gohiriwyd parcio neu ran o'r gilfan / man.**<br>Bydd y tramgwyddiad yn digwydd pan fo cerbyd yn aros neu'n parcio mewn unrhyw ran o gilfan neu le parcio sydd wedi'i ohirio. Bydd arwyddion, megis placard a / neu goniau a baneri'n dangos fod parcio wedi'i ohirio. Bydd arwyddion yn cael eu rhoi yn y gilfan neu le parcio, os yn bosibl, yn dangos fod parcio wedi'i ohirio. Os nad yw hyn yn bosibl bydd yr arwyddion yn cael eu rhoi mor agos ag sydd yn rhesymol bosibl at y cilfannau neu'r mannau lle mae parcio'n cael ei ohirio. | Uwch |
| **22** | 0 munud | **Ail barcio yn yr un lle neu barth parcio o fewn un awr (neu amser penodedig arall) o adael.**<br>Bydd y tramgwyddiad yn digwydd pan fo cerbyd yn dychwelyd i'r un lle parcio o fewn yr adeg benodedig ar ôl gadael. Dim ond | Is |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | pan fo arwyddion ynghylch y lle parcio yn dangos yn glir na chaniateir dychwelyd o fewn cyfnod penodedig y gellir gorfodi'r tramgwyddiad. | |
| **24** | 0 munud | **Heb barcio'n gywir o fewn y marciau ar gilfan neu le parcio.** Bydd y digwyddiad hwn yn digwydd pan fo un neu fwy o olwynion cerbyd y tu allan i'r marciau ar gilfan / lle parcio. Mae'r ffaith fod olwynion y cerbyd y tu allan i farciau cilfan / lle parcio yn golygu y bydd rhannau eraill o'r cerbyd yn cymryd y lle sydd ar gael mewn man parcio arall. | Is |
| **25** | 10 munud | **Parcio mewn lle llwytho yn ystod oriau cyfyngu heb fod yn llwytho.** Bydd y tramgwyddiad hyn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros neu'n cael ei barcio mewn ardal / cilfan sydd wedi'i ddynodi ar gyfer parcio ac nad yw'r Swyddog Gorfodi Sifil yn gweld unrhyw waith llwytho neu ddadlwytho. | Uwch |
| **26** | 0 munud | **Cerbyd yn cael ei barcio fwy na 50 centimetr (neu bellter penodedig arall) o'r cerb a heb fod mewn man parcio dynodedig.** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio fwy na 50cm centimetr o'r cerb a heb fod mewn man parcio dynodedig. Gelwir y tramgwyddiad hwn fel arfer yn barcio dwbl. | Uwch |
| **27** | 0 munud | **Parcio ger palmant wedi'i ostwng.** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd wedi'i barcio ger palmant wedi'i ostwng. Ni chaniateir i yrwyr barcio eu cerbydau mewn ffordd sy'n achosi rhwystr i balmant wedi'i ostwng. Mae palmant wedi'i ostwng yn aml yn ei gwneud yn haws i bobl fynd at eiddo ac yn galluogi rhai megis rhieni gyda phramiau a defnyddwyr cadeiriau olwyn i groesi'r ffordd yn haws. | Uwch |
| **30** | 0 munud | **Parcio am yn hwy nag a ganiateir** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / parcio mewn man parcio rhad am ddim am yn hwy nag ag a ganiateir. Bydd arwyddion gerllaw'r lle / cilfan barcio'n hysbysu gyrwyr am faint o gyfnod yn union y gellir parcio am ddim. | Is |
| **40** | 0 munud | **Parcio mewn lle parcio dynodedig person anabl heb fod yn dangos yn glir fathodyn dilys person anabl.** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio mewn lle parcio dynodedig person anabl heb fod yn dangos yn glir fathodyn dilys person anabl. Gellir rhoi Rhybudd Talu Cosb am y tramgwyddiad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• Ni welwyd Bathodyn Glas dilys ar y cerbyd<br>• Mae'r Bathodyn Glas yn annealladwy / wedi'i guddio.<br>• Daeth y Bathodyn Glas i ben.<br>• Nad yw'r cloc sydd i ganlyn y Bathodyn Glas yn cael ei ddangos gyda'r bathodyn (lle mae cyfyngiad ar am faint o amser y gall deilydd y bathodyn barcio). | Uwch |
| **42** | 0 munud | **Parcio mewn lle parcio wedi'i gadw i gerbydau'r heddlu** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio parcio dynodedig ar gyfer cerbydau'r heddlu. | Uwch |
| **45** | 0 munud | **Parcio ar res tacsi** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio ar unrhyw ran o res tacsi. Dangosir rhesi tacsi yn glir gan farciau melyn ar y ffordd o amgylch y rhes gyda'r gair 'tacsi'. Bydd arwyddion gerllaw'n dangos faint o dacsis sy'n cael parcio ar y rhes. | Uwch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **46** | 0 munud | **Aros lle mae gwaharddiad (ar ffordd goch neu glirffordd).** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio ar unrhyw ran o glirffordd. Fe'i dangosir gan arwyddion sydd i'w gweld wrth fynd ar y glirffordd. Ni ddefnyddir marciau ar y ffordd i ddangos clirffordd 24 awr. | Uwch |
| **47** | 0 munud | **Parcio ar arhosfan bysiau gyda chyfyngiadau** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio ar unrhyw ran o fan aros bws gyda chyfyngiadau. Dangosir man aros bysiau'n glir gyda marciau melyn ar y ffordd o amgylch y man aros ac weithiau bydd y geiriau arhosfan bws y tu mewn i'r marciau. Bydd arwyddion ger yr arhosfan bws yn dangos yr oriau penodedig pan ddylid gorfodi. | Uwch |
| **61** | 0 munud | **Cerbyd nwyddau trwm yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar balmant, llain neu dir rhwng cerbydffyrdd.** Mae'r tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo un neu fwy o olwynion cerbyd dros 7.5 tonnes yn aros / parcio ar balmant, llain neu dir rhwng cerbydffyrdd. Gall cerbydau nwyddau trwm sy'n parcio ar balmant fod yn beryglus i'r cyhoedd drwy eu gorfodi i gerdded ar y ffordd. Gall pwysau'r cerbydau hyn hefyd achosi niwed i'r palmant. | Uwch |
| **62** | 0 munud | **Parcio gydag un neu fyw o olwynion ar unrhyw ran o ffordd drefol heblaw cerbydffordd (parcio ar y palmant)** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / parcio ar ffordd drefol gydag un neu fwy o olwynion ar balmant, tir rhwng dwy gerbydffordd, llain las neu le gwag. | |
| **99** | 0 munud | **Aros ar groesfan gerddwyr a / neu fan croesi yn cael ei ddangos gan linellau igam ogam.** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / parcio ar groesfan gerddwyr a / neu fan croesi yn cael ei ddangos gan linellau igam ogam. Gall parcio ar neu ger croesfannau cerddwyr beryglu bywyd cerddwyr drwy eu rhwystro rhag gweld cerbydau'n dod atynt. | Uwch |

| Tramgwyddiadau oddi ar y stryd (Meysydd Parcio) | | | |
|---|---|---|---|
| **70** | 10 munud | **Parcio mewn lle llwytho yn ystod oriau cyfyngu heb reswm digonol.**<br>Bydd y tramgwyddiad hyn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros neu'n cael ei barcio mewn ardal / cilfan sydd wedi'i dynodi ar gyfer parcio ac nad yw'r Swyddog Gorfodi Sifil yn gweld unrhyw waith llwytho neu ddadlwytho. | Uwch |
| **73** | 5 munud | **Parcio heb dalu am barcio**.**<br>Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio heb dalu'r tâl parcio perthnasol. Bydd y tâl parcio'n cael ei ddangos yn glir ar arwyddion yn y maes parcio. | Is |
| **74** | 0 munud | **Defnyddio cerbyd mewn maes parcio ar gyfer gwerthu neu ddangos nwyddau er mwyn eu gwerthu pan waherddir hynny.**<br>Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / parcio mewn maes parcio ar gyfer gwerthu neu ddangos nwyddau er mwyn eu gwerthu. | Uwch |
| **80** | 10 munud | **Parcio am yn hwy na'r cyfnod hiraf a ganiateir**<br>Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / parcio mewn man parcio rhad am ddim am yn hwy nag ag a ganiateir. Bydd arwyddion gerllaw'r lle / cilfan barcio'n hysbysu gyrwyr am yn union am ba hyn y gellir parcio am ddim. | Is |
| **81** | 0 munud | **Parcio mewn man gwaharddedig mewn maes parcio**<br>Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio ar unrhyw ran lle y dangosir yn glir fod cyfyngiadau. Bydd marciau ar wyneb y tir i ddangos y man lle mae gwaharddiadau. | Uwch |
| **82** | 0 munud | **Parcio ar ôl i'r cyfnod y talwyd amdano yn y maes talu ac arddangos ddod i ben.**<br>Mae'r tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo tocyn sy'n cael ei arddangos y tu fewn i gerbyd yn dangos fod yr amser wedi dod i ben. | Is |
| **83** | 5 munud | **Parcio mewn maes parcio talu a dangos heb ddangos tocyn talu ac arddangos yn amlwg.**<br>Mae'r tramgwyddiad hwn yn digwydd pan na ellir gweld tocyn talu ac arddangos yn eglur mewn cerbyd wedi'i barcio mewn maes parcio talu ac arddangos.<br>Gellir rhoi Rhybudd Talu Cosb am y tramgwyddiad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• Ni ellir gweld tocyn talu ac arddangos y tu fewn i'r cerbyd<br>• Mae'r manylion ar y tocyn talu ac arddangos yn annealladwy / wedi'u cuddio<br>• Mae'r tocyn talu ac arddangos sy'n cael ei ddangos a'i ben i lawr ac ni all y Swyddog Gorfodi Sifil ddarllen y manylion.<br>• Mae'r tocyn talu ac arddangos wedi disgyn ac ni all y Swyddog Gorfodi Sifil ddarllen y manylion. | Is |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **84** | 0 munud | **Parcio ar ôl talu'n ychwanegol er mwyn ymestyn y cyfnod aros ymhellach na'r cyfnod y talwyd amdano gyntaf.**<br>Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan brynir tocyn talu ac arddangos arall ac yna'i ddangos mewn cerbyd sy'n aros yn yr un cilfan / lle parcio ar ôl i gyfnod y tocyn talu ac arddangos cyntaf ddod i ben. Dim ond pan fo arwyddion ynghylch y lle parcio yn dangos yn glir na chaniateir prynu rhagor o amser parcio y gellir gorfodi'r tramgwyddiad. | Is |
| **85** | 0 munud | **Parcio lle y dylid cael trwydded heb fod yn dangos trwydded ddilys**<br>Bydd y tramgwyddiad yn digwydd pan fo cerbyd yn disgwyl neu'n parcio o fewn terfynau cilfan neu fan parcio heb ddangos hawlen parcio ar y cerbyd. | Uwch |
| **86** | 0 munud | **Parcio y tu hwnt i farciau cilfan.**<br>Bydd y digwyddiad hwn yn digwydd pan fo un neu fwy o olwynion cerbyd y tu allan i'r marciau ar gilfan / lle parcio mewn maes parcio. Mae'r ffaith fod olwynion y cerbyd y tu allan i farciau cilfan / lle parcio yn golygu y bydd rhannau eraill o'r cerbyd yn cymryd rhan o'r lle sydd ar gael mewn man parcio arall. | Is |
| **87** | 0 munud | **Parcio mewn lle parcio dynodedig person anabl heb fod yn dangos yn glir fathodyn dilys person anabl.**<br>Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio mewn lle parcio dynodedig person anabl heb fod yn dangos yn glir fathodyn dilys person anabl. Gellir rhoi Rhybudd Talu Cosb am y tramgwyddiad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• Ni welwyd bathodyn anabl dilys ar y cerbyd<br>• Mae'r bathodyn person anabl yn annealladwy / wedi'i guddio.<br>• Daeth y bathodyn person anabl i ben.<br>• Nad yw'r cloc sydd i ganlyn y bathodyn person anabl yn cael ei ddangos gyda'r bathodyn (lle mae cyfyngiad ar am faint o amser y gall deilydd y bathodyn barcio). | Uwch |
| **89** | 0 munud | **Mae'r cerbyd sydd wedi parcio yn drymach na'r pwysau neu'n dalach na'r uchdwr a ganiateir yn yr ardal.**<br>Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd sy'n rhy drwm neu'n rhy uchel yn cael ei weld yn parcio mewn maes parcio. Bydd y cyfyngiadau pwysau ac uchder yn cael ei ddangos yn glir ar yr arwyddion sydd ger mynedfa'r maes parcio. | Uwch |
| **90** | 0 munud | **Ail barcio o fewn cyfnod penodedig o adael cilfan neu le mewn maes parcio.**<br>Bydd y tramgwyddiad yn digwydd pan fo cerbyd yn dychwelyd i'r un lle parcio o fewn y cyfnod penodedig ar ôl ei adael. Dim ond pan fo arwyddion ynghylch y lle parcio yn dangos yn glir na chaniateir dychwelyd o fewn amser penodedig y gellir gorfodi'r tramgwyddiad. | Is |
| **91** | 0 munud | **Parcio mewn ardal na ddynodwyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd.**<br>Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio mewn maes parcio nad yw wedi'i ddynodi ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd. Enghraifft o hyn fyddai cerbyd wedi'i barcio mewn cilfan beiciau modur neu feic modur mewn lle ar gyfer beiciau. | Uwch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **92** | 0 munud | **Parcio yn achosi rhwystr.** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei barcio mewn maes parcio mewn modd sy'n achosi rhwystr i ddefnyddwyr eraill y maes parcio. | Uwch |
| **93** | 0 munud | **Parcio mewn maes parcio pan fydd wedi cau.** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn cael ei adael / parcio mewn maes parcio y tu allan i'w oriau agor | Is |
| **94** | 5 munud | **Parcio mewn maes parcio talu a dangos heb ddangos yn amlwg ddau docyn talu ac arddangos dilys.** Bydd y tramgwyddiad yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / parcio heb fod dau docyn tal ac arddangos dilys yn cael ei arddangos yn y cerbyd. Enghraifft o hyn fyddai pe byddai'n rhaid i yrrwr brynu dau docyn talu ac arddangos yr un pryd - un ar gyfer y cerbyd ac un ar gyfer ôl gerbyd sy'n cymryd y cyfan neu ran o'r lle mewn cilfan arall. | Is |
| **95** | 0 munud | **Parcio mewn lle parcio ar gyfer diben heblaw'r diben dynodedig ar gyfer y lle parcio hwnnw.** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / parcio mewn maes parcio at ddiben heblaw'r diben dynodedig ar gyfer y lle parcio hwnnw. Enghraifft o hyn fyddai lle parcio wedi'i ddynodi mewn maes parcio ar gyfer gwefru cerbydau electronig a bod cerbyd yn gwerthu nwyddau yno. | Is |
| **96** | 0 munud | **Parcio gyda'r peiriant yn rhedeg lle gwaherddir hynny.** Bydd y tramgwyddiad hwn yn digwydd pan fo cerbyd yn aros / parcio gyda'r peiriant yn rhedeg mewn maes parcio lle gwaherddir i'r peiriant redeg. Bydd yr arwyddion ger y lle parcio yn dangos y gwaharddiad. | Is |
| Gellir rhoi Rhybudd Talu Cosb ar unwaith mewn amgylchiadau lle mae gan y Swyddog Gorfodi Sifil dystiolaeth, a fyddai'n cyfiawnhau hynny heb fod yn sylwi ar y cerbyd am y cyfnodau lleiaf a ddanghosir. | | | |
| ** Ni roddir amser i ymwelwyr fynd i chwilio am newid o lle mae'r peiriant talu ac arddangos neu'r maes parcio. Dylai Swyddogion Gorfodi Sifil edrych a oes ciwiau wrth y peiriannau tocynnau neu gerddwyr yn chwilio am newid cyn rhoi Rhybudd Talu Cosb ar gerbyd. | | | |

# GWEITHDREFNAU PENODOL

## *Cerbydau wedi'u gadael*

Os yw cerbyd wedi'i adael mewn man lle mae cyfyngiadau am gyfnod ac mae yna lawer o Rybuddion Talu Cosb wedi'u gosod arno (llawer = 3) am yr un tramgwyddiad ac nad yw'r rhain wedi tynnu oddi ar y cerbyd, bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn adrodd bod y cerbyd yn un a allai fod wedi 'i adael a bydd adain y Cyngor sy'n delio â cherbydau wedi'u gadael yn ymdrin â'r mater o dan Ddeddf Gwaredu Gwastraff (Mwynderau) 1978.

Byddwn yn defnyddio'r meini prawf canlynol i benderfynu a yw cerbyd yn un sydd wedi'i adael:

- Heb dreth neu'r disg treth allan o ddyddiad*
- Cyflwr cyffredinol gwael
- Dim tystiolaeth o fod wedi'i symud
- Sawl Rhybudd Talu Cosb ar y cerbyd.

*Mae'n rhaid i'r cerbyd fod heb ei drethu neu fod â disg treth allan o ddyddiad cyn y gall y Cyngor ei symud.

Ni roddir rhagor o Rybuddion Talu Cosb ar gerbyd yr ystyrir y gallai fod wedi'i adael. Bydd y Rhybuddion a fydd wedi'u rhoi ar y cerbyd yn cael eu gorfodi yn erbyn y perchennog cofrestredig yn y ffordd arferol. Defnyddir protocolau'r Cyngor ar gyfer cerbydau wedi'u gadael a bydd y Swyddogion Gorfodi Sifil a Swyddogion yr Heddlu yn cytuno ar yr hyn sydd i'w wneud.

## *Gwyliau'r Banc - Cyfyngiadau Perthnasol.*

Gall y cyfyngiadau aros a llwytho, sy'n cael eu dangos gan linellau melyn / marciau ar y ffordd a / neu'r cerbiau fod mewn grym gydol y flwyddyn.

Bydd taliadau ac amodau'n berthnasol ym meysydd parcio Talu ac Arddangos yn ystod Gwyliau Banc os nad oes arwyddion yn dangos yn wahanol

Ni all modurwyr ragdybio fod y cyfyngiadau'n cael eu codi ar Wyliau'r Banc oni bai fod hyn yn cael ei ddatgan yn glir ar arwyddion cyfagos. Dylid talu sylw penodol i ardaloedd lle mae problemau gwybyddus ar Wyliau'r Banc.

## *Ymweliadau â'r Banc*

Ni dderbynnir honiadau oddi wrth unigolion na ddylid rhoi Rhybudd Talu Cosb ar gerbyd sydd wedi'i barcio er mwyn rhoi neu dynnu arian o'r banc. Os oes cyfyngiadau ar barcio ger y banc bydd yn rhaid i fodurwyr gydymffurfio. Dylid cynghori modurwyr i gysylltu â'r banc ynghylch trefniadau diogeledd ar gyfer y dyfodol.

Fe werthfawrogir y gall rhai pobl gael trafferthion wrth ymweld â'r banc ond dim ond ar gyfer cerbydau cario arian sy'n llwytho a dadlwytho llawer iawn o arian parod y mae'r eithriadau'n berthnasol.

## *Mynedfeydd wedi'u blocio*

Nid oes gan yrwyr sy'n honni na allen nhw fynd i eiddo preifat neu fasnachol oherwydd bod y fynedfa wedi'i blocio hawl i barcio mewn lle gwaharddiedig. Yr eithriad i hyn yw pan fo gyrrwr yn gorfod nôl goriad i ddatgloi rhywbeth sy'n ei rwystro rhag symud ei gerbyd oddi ar y stryd. Ni ddylai hyn, fodd bynnag, gymryd mwy na phum munud fel arfer.

Pan fo mynediad i eiddo yn cael ei blocio a bod yna gyfyngiad parcio yno, gellir rhoi Rhybudd Talu Cosb ar y cerbyd os yw wedi'i barcio'n groes i'r cyfyngiad.

Gellir cyfeirio achosion o rwystro mynediad hefyd i'r heddlu.

## *Allanfa lle parcio wedi'i blocio*

Ni ddylai gyrwyr sy'n honni na allen nhw adael lle parcio oherwydd bod cerbyd arall yn eu blocio adael eu cerbydau. Dylai gyrwyr aros gyda'u cerbydau nes y gallan nhw ddweud wrth Swyddog Gorfodi Sifil am y broblem.

Os gwelir gyrrwr y cerbyd, ni fydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn rhoi Rhybudd Talu Cosb ond bydd yn cymryd manylion llawn y cerbyd, gall gymryd ffotograff o safle'r cerbyd a gall sôn wrth Swyddogion eraill gerllaw am y broblem.

Os na welir gyrrwr gyda'r cerbyd, bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn rhoi Rhybudd Talu Cosb ond bydd yn cymryd manylion llawn y cerbyd a gall gymryd ffotograff o safle'r cerbyd.

Os derbynnir sylwadau yn erbyn rhoi Rhybudd Talu cosb yn honni na ellid symud y cerbyd oherwydd bod cerbyd arall yn ei flocio dylid ystyried ei ddiddymu. Wrth ystyried hyn, dylid ystyried, gyda'r sylwadau, unrhyw dystiolaeth arall a gyflwynir gan berchennog y cerbyd a dylid hefyd ystyried y dystiolaeth yn llyfr nodiadau'r Swyddog Gorfodi Sifil ac unrhyw ffotograffau.

## *Bathodynnau Glas*

Trefniant cenedlaethol o gonsesiynau parcio i bobl sy'n cael cryn drafferth i gerdded, yn yrwyr neu'n deithwyr, yw'r Cynllun Bathodyn Glas. Mae'r Cynllun hefyd ar gyfer pobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall, a phobl gydag anableddau mawr yn eu breichiau sy'n gallu gyrru cerbyd ond yn methu ei lywio â llaw. Mae'n galluogi deilydd bathodyn i barcio'n agos at ble mae'n mynd ond dylid cofio mai ar gyfer parcio ar y stryd yn unig y mae'r consesiynau cenedlaethol.

Mae'n drosedd gyfreithiol gyrru cerbyd yn dangos Bathodyn Glas heb fod deilydd y bathodyn yn y cerbyd. Ni chaniateir defnyddio'r bathodyn at unrhyw ddiben arall e.e. siopa ar gyfer deilydd y bathodyn pan nad yw'r deilydd ei hunan yn y cerbyd.

Mae'n rhaid dangos y bathodynnau glas yn glir ac yn briodol pan fydd y cerbyd wedi parcio. Mae'n rhaid i'r bathodyn glas fod ar y silff o dan ffenestr flaen y cerbyd lle gellir ei weld yn glir. Rhaid i'r bathodyn gael ei ddangos gyda'r dyddiad y daw i ben yn cael ei ddangos yn glir. Os nad oes silff o dan ffenestr flaen y cerbyd mae'n rhaid dangos y bathodyn yn glir yn rhywle arall. Dylid dangos y bathodyn glas wrth ochr y cloc (disg parcio) bob amser.

Bydd peidio â gwneud hynny'n arwain at Rybudd Talu Cosb am dramgwyddo cyfyngiad parcio a gellir hefyd gyflwyno Rhybudd am y rhesymau canlynol:

- Ni welwyd Bathodyn Glas dilys ar y cerbyd
- Mae'r Bathodyn Glas yn annealladwy / wedi'i guddio.
- Daeth y Bathodyn Glas i ben.
- Nid yw'r cloc sydd i ganlyn y Bathodyn Glas yn cael ei ddangos gyda'r bathodyn (lle mae cyfyngiad ar y cyfnod y gall deilydd y bathodyn barcio).

Wrth ystyried y mater bydd y Cyngor yn talu sylw i dramgwyddiadau blaenorol gan yr un cerbyd a / neu ddeilydd bathodyn am beidio â dangos y Bathodyn Glas. Os nad oes tystiolaeth o dramgwyddiadau blaenorol dylid diddymu'r Rhybudd cyn belled ag y rhoddwyd prawf fod y bathodyn yn ddilys. O dan amgylchiadau o'r fath dylai'r llythyr a fydd yn cael ei anfon at y person a wnaeth y sylwadau ei gwneud yn glir y bydd cofnod o'r tramgwyddiad yn cael ei gadw ac os bydd angen ystyried achos tebyg yn y dyfodol ac y gallai hynny arwain at wrthod y sylwadau.

Cyn belled â bod y Bathodyn Glas yn cael ei ddangos yn glir ac yn briodol, gall y deilydd barcio mewn:

- Mannau lle gellir parcio am ond ychydig: Am gyfnod amhenodol
- Llinellau Melyn: Am gyfnod hyd at 3 awr.

Dylai deilydd Bathodynnau Glas edrych am arwyddion mewn meysydd parcio yn dangos pa drefniadau lleol sydd yno (nid yw pob awdurdod yn caniatáu parcio am ddim mewn meysydd parcio Talu ac Arddangos).

Ni chaniateir i Ddeiliaid Bathodynnau Glas barcio ar:

- Unrhyw fan lle mae cyfyngiadau llwytho.
- Unrhyw fan sydd wedi'i gadw'n benodol ar gyfer cerbydau neu ddibenion eraill e.e. Rhesi Tacsi, lleoedd cadw mewn meysydd parcio, Arosfannau Bysiau neu gilfannau parcio lorïau trymion ayb.

Rhaid parcio gyda Bathodyn Glas yn unol â chanllawiau presennol y Cynllun Bathodyn Glas cyfredol.

Gall ymwelwyr o'r Undeb Ewropeaidd ddefnyddio consesiynau parcio yn y DU drwy ddangos bathodyn eu cynllun cenedlaethol nhw. Pan nad yw cynllun cenedlaethol yn cynnwys disg parcio (cloc amser) fel sy'n ofynnol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer parcio ar linellau melyn dwbl mae'r Adran Drafnidiaeth yn awgrymu, os yw'r cerbyd wedi parcio mewn man lle byddai angen disg parcio fel arfer, yna y dylai deilydd y Bathodyn Glas ysgrifennu ar ddarn o bapur yr amser y mae'n cyrraedd a'i ddangos mewn lle amlwg ger y Bathodyn. Bydd y consesiwn hwn ar gael i ddeiliaid Bathodynnau Glas o wledydd eraill.

Mae'r Adran Drafnidiaeth yn awyddus i sicrhau y bydd pawb yn cael budd o'r cynllun Bathodyn Glas ond mae'n awyddus hefyd i rwystro ei gamddefnyddio. O dan Adran 94 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 mae gan swyddogion yr heddlu a Swyddogion Gorfodi Sifil (yn ôl diffiniad Adran 76 o Ddeddf Rheoli traffig 2004) hawl i archwilio bathodynnau. Mae'n drosedd peidio â dangos bathodyn pan fydd un o'r rhain yn gofyn amdano.

## *Sefydliadau Moduro*

Mae cerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer trwsio neu gario cerbydau'n cael eu heithrio o'r rheoliadau cyn belled ag y gellir gweld eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith hwnnw. Bydd cerbydau yn parcio am amser hir heb arlliw eu bod ar waith yn cael eu trin yr un fath â cherbydau modurwyr cyffredin.

## *Cerbydau wedi torri: (Gweler hefyd "Cerbydau wedi'u fandaleiddio")*

Bydd honiadau fod cerbyd wedi torri yn cael eu derbyn os yw'n ymddangos nad oedd modd osgoi hynny ac os oes tystiolaeth i gadarnhau hynny ar ffurf un neu ragor o'r canlynol:

1. Derbynneb gan fodurdy, ar bapur pennawd, wedi'i gwblhau'n briodol ac yn dangos fod y nam wedi'i drwsio o fewn cyfnod rhesymol o'r tramgwyddiad.
2. Derbyniadau til o rannau sbâr rhesymol ar, neu'n fuan ar ôl, adeg y tramgwyddiad.
3. Llythyr o gadarnhad oddi wrth yr RAC, AA neu sefydliad moduro tebyg.
4. Cadarnhad gan y Swyddog Gorfodi Sifil fod y cerbyd yn amlwg wedi torri.

Penderfynir ar bob achos yn unigol yn y pen draw er y yr ystyrir hefyd achosion blaenorol lle derbyniwyd fod cerbyd wedi torri yn amgylchiad lliniaru.

Ni fydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn derbyn nodyn wedi'i adael ar ffenestr flaen y cerbyd yn dweud ei fod wedi torri fel rheswm dros beidio â rhoi Rhybudd Talu Cosb.

Rhestrir isod rai meysydd cynhennus ynghylch cerbydau'n torri.

1. BATRI FFLAT:
   a) Dylid gofyn am dderbynneb am brynu batri newydd neu rannau a allai achosi batri fflat (eiliadur, solenoid ayb). Ni ddylai'r dderbynneb fod wedi'i dyddio cyn dyddiad y tramgwyddiad na bod wedi'i dyddio yn hwyr iawn ar ôl hynny.
   b) Mewn achos lle'r honnir fod y cerbyd wedi cael ei danio drwy ei wthio neu ryw ffordd arall debyg bydd y Rhybudd Talu Cosb yn cael ei orfodi. (D.S.. NI ellir tanio cerbydau gyda gers awtomatig drwy eu gwthio).
   c) Os na cheir tystiolaeth bydd y Rhybudd Talu Cosb yn cael ei orfodi.

Dylid ystyried hefyd sut y daeth y cerbyd i fod wedi parcio'n anghyfreithlon yn y lle cyntaf h.y. a gafodd ei wthio o fan lle nad oedd cyfyngiadau' bodoli neu a oedd wedi'i barcio'n groes i gyfyngiad cyn iddo dorri.

2. TEIAR(S) FFLAT
   a) Mae'n rhesymol disgwyl y bydd gyrrwr yn gallu newid teiar fflat. Os yw'r cerbyd wedi'i adael heb neb yn ei warchod bydd yn cael Rhybudd Talu Cosb ac ni fydd y Rhybudd yn cael ei ddiddymu'n ddiweddarach oni bai bod y gyrrwr yn: rhywun hen, anabl neu simsan ac wedi mynd i chwilio am help. Mae gofyn cael tystiolaeth gan y sawl a fu'n helpu mewn achosion o'r fath.
   b) Os na ellid newid yr olwyn oherwydd trafferth mecanyddol dylid cyflwyno tystiolaeth gan y sawl a fu'n helpu yn cefnogi hyn.
   c) Nid yw'r ffaith nad oedd olwyn sbâr yn y cerbyd yn rheswm dros ddiddymu Rhybudd Talu Cosb.

3. GORBOETHI:
   a) Dylid gorfodi pob achos pan honnir fod cerbyd wedi gorboethi oherwydd diffyg dŵr oni bai fod hynny wedi'i achosi'n uniongyrchol gan nam mecanyddol megis: belt ffan wedi torri, rhyddiadur wedi cracio, peipen wedi torri, nam ar bwmp neu thermostat dŵr. Dylid cael tystiolaeth o drwsio ym mhob achos.
   b) Ni dderbynnir fod gorboethi wedi'i achosi gan draffig trwm neu dywydd poeth yn esgus dilys.

4. RHEDEG ALLAN O DANWYDD:
   a) Oni bai fod hyn yn cael ei achosi gan nam mecanyddol neu drydanol a bod tystiolaeth fod hyn wedi'i drwsio, bydd pob Rhybudd Talu Cosb yn cael ei orfodi.

## *Adeiladwyr / Crefftwyr*

1. Cyfyngiadau aros: Dim ond ar gyfer llwytho neu ddadlwytho offer neu ddefnyddiau y caniateir parcio. Ar adegau eraill bydd yn rhaid symud y cerbyd i fan lle caniateir parcio.
2. Parthau Parcio Trigiannol ar y stryd: Dim ond ar gyfer llwytho a dadlwytho y gellir parcio cerbydau crefftwyr a hynny os oes ganddyn nhw hawlen ymwelwyr ddilys neu lle y caniateir parcio heb hawlen - dylid edrych ar yr arwyddion i weld am ba mor hir y gall cerbyd barcio yno.
3. Gall Adeiladwyr a Chrefftwyr ofyn am ganiatâd i barcio'n groes i rai cyfyngiadau.

## *Arosfannau Bysiau*

Bydd pob Rhybudd Talu Cosb a roddir i bob cerbyd, heblaw bysiau, am aros ar arhosfan bws gyda chyfyngiadau yn cael eu gorfodi.

## *Carafanau ac ôl gerbydau.*

Dylid adrodd yn ôl wrth y swyddfa gefn am garafanau ac ôl gerbydau heb fod wrth gerbydau ac wedi'u parcio'n groes i Orchymyn Rheoli Traffig er mwyn i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo i'r adain briodol gynted â bo modd.

Dylai gyrwyr cerbydau'n tynnu carafanau neu ôl gerbydau sicrhau nad yw'r rhain yn achosi trafferth i yrwyr eraill wrth eu parcio ac, yn ôl y gofyn, dylid prynu tocyn Talu ac Arddangos ar gyfer pob un o'r cilfannau parcio a ddefnyddir.

## *Sefydliadau Gofal*

Mae nifer o sefydliadau gofal yn gweithredu yng ngogledd Cymru erbyn hyn o ganlyniad i drefniadau contract gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Awdurdodau Iechyd Lleol yn ogystal â threfniadau gofal preifat. Bydd cerbydau'r rhain yn aml yn arddangos bathodynnau'r gwahanol sefydliadau ond, oherwydd yr amrywiaeth o fathodynnau sydd ar gael, does yr un yn cael ei gydnabod gan y partneriaid fel awdurdod dilys i barcio ar y stryd nac mewn meysydd parcio cyhoeddus.

1. Parcio ym Meysydd Parcio'r Cyngor: Teimlir nad oes angen gadael i ofalwyr barcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor. Felly, nid roddir hawlenni ar gyfer hynny.
2. Parcio ar linellau melyn: Nid yw gofalwyr yn cael eu heithrio o'r cyfyngiadau llinellau melyn a ddylen nhw ddim eu torri. Ni roddir caniatâd i ofalwyr barcio ar linellau melyn ac eithrio mewn argyfwng meddygol pan ellir diddymu Rhybudd Talu Cosb ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael.
3. Efallai y bydd gan awdurdodau partner eu trefniadau eu hunain a bydd Rhybuddion Talu Cosb a fydd yn cael eu cyflwyno yn cael eu hystyried yn ôl y trefniadau hyn.

## *Cerbydau ar werth / i'w llogi*

Bydd cerbydau'n sy'n cael eu parcio ar y briffordd er mwyn eu gwerthu neu eu llogi yn cael eu trin fel unrhyw gerbyd arall. Bydd Swyddogion Gorfodi Sifil yn trin cerbydau ar werth yn union yr un fath ag unrhyw gerbyd arall sy'n cael ei barcio'n groes i Orchymyn Rheoli Traffig a bydd yn rhoi'r Rhybudd Talu Cosb perthnasol. Bydd unrhyw her yn erbyn rhoi Rhybudd Talu Cosb ar gerbyd sydd wedi barcio ar gyfer ei werthu neu ei logi yn groes i Orchymyn Rheoli Traffig yn cael ei wrthod.

## *Heriau / Sylwadau gyda thâl i'w canlyn*

Pan fydd rhywun yn cyflwyno tâl ac yn amgáu llythyr yn herio'r Rhybudd Talu Cosb ac yn gofyn am iddo gael ei ddiddymu bydd Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru'n ystyried yr her bob amser.

Os yw'r her yn aflwyddiannus byddwn yn dychwelyd y tâl ac yn egluro paham fod yr her wedi methu ac na ellir herio'r Rhybudd Talu Cosb nes bod Rhybudd i Berchennog wedi'i gyflwyno. Bydd cyfnod pellach o 14 diwrnod i dalu'r swm disgownt o'r gosb yn cael ei gynnig .

## *Llyfrau Nodiadau'r Swyddogion Gorfodi Sifil*

Bydd yn rhaid i'w Swyddogion Gorfodi Sifil gadw llyfrau nodiadau a nodi ynddyn nhw fanylion eu patrol, y Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd ayb. Mae'n rhaid nodi manylion yn y llyfrau hyn yn ogystal ag yn y cyfrifiaduron llaw. Bydd y rhain ar gael i'r dyfarnwyr pe byddai Rhybudd Talu Cosb yn cael ei herio drwy'r broses ddyfarnu annibynnol ac o gymorth hefyd i ymchwilio i unrhyw her neu sylwadau y bydd yr awdurdod gorfodi'n eu derbyn.

## *Clampio a Symud*

Mae gan y Cyngor hawl i glampio ac yna symud cerbydau sy'n parcio'n groes i'r cyfyngiadau parcio. Fodd bynnag, does dim bwriad, ar hyn o bryd, i glampio na symud cerbydau er y gellir adolygu'r penderfyniad hwn yn nes ymlaen. Mae'r hawl i glampio a symud cerbydau yn y Gorchmynion Rheoli Traffig.

## *Cwynion yn erbyn Swyddogion Gorfodi Sifil*

Bydd honiadau fod Swyddog Gorfodi Sifil wedi gwneud camgymeriad wrth gyflwyno Rhybudd Talu Cosb yn cael eu hymchwilio o dan y gweithdrefnau arferol ar gyfer sylwadau neu heriau a bydd nodyn ffurfiol o dderbyn neu wrthod y rhain yn cael ei anfon o fewn y cyfnod a nodir.

Bydd unrhyw honiad o gamymddwyn neu o fod yn anfoesgar yn erbyn aelod o'r staff gorfodi'n cael ei ymchwilio a'i drin o dan Bolisi Disgyblu'r Cyngor. Bydd canfyddiadau'r ymchwiliad yn cael i gyflwyno'n ysgrifenedig o fewn y cyfnod priodol i'r sawl sy'n cwyno. Pe na byddai'r canfyddiadau'n dderbyniol i'r sawl sy'n cwyno fe'i cynghorir sut i ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno Ffurfiol y Cyngor.

## *Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor ar Ddyletswydd*

Disgwylir i bob swyddog ac aelod o'r Cyngor gydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau parcio ar y stryd pan ar ddyletswydd.

1. Disgwylir i Staff neu Aelodau ar ddyletswydd swyddogol y Cyngor gydymffurfio'n llawn gyda phob rheol parcio berthnasol. Bydd peidio â chydymffurfio yn golygu y cyflwynir Rhybudd Talu Cosb.
2. Bydd yn rhaid i staff a Chynghorwyr gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau lleol ynghylch meysydd parcio ac unrhyw ofynion o ran Talu ac Arddangos.
3. Cais am Ddiddymu Rhybudd Talu Cosb. Yr unig adeg yr ystyrir hyn yw mewn achos o argyfwng ac mae'n rhaid i'r cais gael ei gefnogi gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol.

## *Mynychu Llys – Ar Reithgor, fel Tyst neu fel Diffynnydd*

Ni ellir gwarantu am ba mor hir neu pa bryd y bydd gwrandawiad yn cael ei gynnal ac yn aml nid yw aelodau o'r rheithgor a / neu dystion yn gallu gadael y llys i brynu rhagor o amser talu ac arddangos mewn maes parcio neu symud eu car. Ni fydd y llys yn talu unrhyw Rybudd Talu Cosb a roddir i aelod o reithgor neu dyst tra eu bod yn y llys, hyd yn oed os oedd y llys yn rhedeg yn hwyr.

O dan y fath amodau, bydd y Cyngor yn gorfodi Rhybuddion Talu Cosb yn erbyn perchennog oni bai y ceir tystiolaeth na ellid yn rhesymol fod wedi rhagweld y byddai cymaint o oedi e.e. rheithgor yn cael ei symud i westy am y noson.

Mae'r amodau sy'n berthnasol i Aelodau Rheithgor a Thystion hefyd yn berthnasol i ddiffynyddion. Fodd bynnag, cafwyd achosion pan gafodd diffynyddion eu carcharu'n annisgwyl ac o ganlyniad uniongyrchol yn methu â symud eu cerbydau o faes parcio'r Cyngor neu oddi ar y stryd.

Mewn achosion o'r fath bydd y Cyngor yn disgwyl i'r cerbyd gael ei symud gynted ag y bo modd, gan deulu, ffrindiau neu gynrychiolwyr cyfreithiol y diffynnydd. Ni fydd unrhyw Rybudd Talu Cosb yn cael ei orfodi cyn belled ag y ceir tystiolaeth i gefnogi gan gynrychiolydd cyfreithiol y diffinydd.

## *Apwyntiadau Deintydd / Meddyg*

Os honnir y bu oedi oherwydd newid mewn amser apwyntiad neu y cymerodd y driniaeth fwy o amser na'r disgwyl ac, o ganlyniad, y rhoddwyd Rhybudd Talu Cosb am barcio'n hwy nag a ganiateid, dylid ystyried pa mor ddilys yw'r honiad. Dylai honiadau o'r fath gael eu cefnogi gan gadarnhad ysgrifenedig gan y deintydd neu'r meddyg yr achoswyd yr oedi gan resymau y tu allan i reolaeth y gyrrwr.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gael ei fodloni fod y gyrrwr wedi gadael digon o amser wrth benderfynu ym mhle i barcio neu wrth brynu tocyn i ganiatáu am yr oedi arferol sydd i ganlyn apwyntiadau o'r fath.

## *Disgrifiad o’r Cerbyd – ar y Rhybudd Talu Cosb*

Wrth gyflwyno Rhybudd Talu Cosb bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn nodi gwneuthuriad, lliw a rhif cofrestru’r cerbyd a bydd hyn yn ymddangos ar y Rhybudd Talu Cosb. Bydd y Swyddog hefyd yn nodi manylion eraill hefyd megis rhif y disg treth (pan fydd un yn cael ei ddangos) a safle falfiau’r teiars a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cofnodion.

1. **Rhif y Disg Treth** Yr un peth sy'n unigryw i'r cerbyd yw rhif y disg treth a bydd yn cael ei gofnodi gan y Swyddog Gorfodi Sifil wrth roi Rhybudd Talu Cosb. Os yw'r rhain yn cyd-fynd mae gan y Cyngor sail dda i orfodi'r Rhybudd er gwaethaf unrhyw gamgymeriad wrth gofnodi'r gwneuthuriad neu'r lliw.
2. **Lliw anghywir:** Os yw’r lliw wedi’i gofnodi’n anghywir efallai yr ystyrir diddymu’r Rhybudd Talu Cosb fel a ganlyn:
   a) Lliwiau sy'n gwahaniaethu'n fawr. Ni ellir, yn naturiol, egluro pam y cofnodwyd car glas fel un coch a dylid ystyried diddymu’r Rhybudd Talu Cosb. Gallai hyn, fodd bynnag olygu fod y car wedi'i ail beintio a hynny heb hysbysu'r Asiantaeth Drwyddedu Cerbydau a Gyrwyr. Os yw'r lliw a gofnodwyd gan y Swyddog Gorfodaeth yn cael ei ategu gan dystiolaeth ffotograffig ar adeg y tramgwyddiad honedig byddwn yn symud ymlaen â'r orfodaeth, hyd yn oed os yw cofnodion yr Asiantaeth Drwyddedu'n dangos fod lliw gwahanol i'r cerbyd.
   b) Lliwiau Tebyg. Gellir camgymryd lliwiau tebyg i'w gilydd, yn enwedig mewn goleuni gwan. Gall lliwiau metelig gael eu gweld yn wahanol gan wahanol bobl e.e. Arian fel Glas, Du fel Llwyd. Mae lliwiau soled megis gwyn yn amrywio’n fawr o fodel i fodel a gellir ei weld fel lliw Hufen. Gall sawl math o las gael ei weld fel gwyrdd ac fel arall. Pan fo perthynas agos rhwng y lliwiau byddwn yn gorfodi’r Rhybudd Talu Cosb.
3. **Gwneuthuriad anghywir:** Bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn edrych ar ddisg treth y cerbyd cyn rhoddi’r Rhybudd Talu Cosb. Dylai hwn ddangos gwneuthuriad y cerbyd. Os yw’r disg treth yn dangos y cofnodwyd y manylion yn anghywir dylid ystyried diddymu’r Rhybudd Talu Cosb.

## *Gofeddebau a Gohiriadau*

GODDEFEBAU Bydd y cerbydau canlynol yn cael eu heithrio'n awtomatig o'r cyfyngiadau aros:

- Y Gwasanaethau Heddlu, Tân, Achub (gan gynnwys Badau Achub a Gwylwyr y Glannau) ac Ambiwlansys ond dim ond pan ar waith argyfwng,
- Cerbydau ar gyfer Cynnal Priffyrdd neu Gyfleustodau Cyhoeddus pan fo angen iddyn nhw fod wedi’u parcio’n agos at y safle.
- Cerbydau gyda bathodyn y Cyngor ar ddyletswydd statudol megis Casglu Ysbwriel, Glanhau Strydoedd a chynnal lleiniau glas.
- Cerbydau'n arddangos Bathodynnau Glas dilys (gweler yr adran ar Yrwyr / Teithwyr Anabl).

Gellir caniatáu goddefebau am resymau eraill.

GOHIRIO Gellir gohirio parcio mewn cilfannau dynodedig, ar neu oddi ar y stryd.

Ceir canllawiau llawn ar oddefebau a gohiriadau (ar gyfer beth y'u caniateir, sut i ymgeisio ayb) drwy gysylltu â'r awdurdod priodol.

Bydd yn rhaid trafod gyda'r Cyngor ynghylch gohirio parcio mewn cilfannau mewn meysydd parcio oddi ar y stryd a gellir codi tâl masnachol am hynny.

## *Gyrwyr / Teithwyr gydag anableddau*

Gweler Bathodynnau Glas


## *Cerbiau Isel*

Mae pwerau a ganiatawyd gan Lywodraeth Cymru yn galluogi Cynghorau i roi Rhybudd Talu Cosb ar gerbydau wedi'u parcio ger Cerbiau Isel heb arwyddion traffig i ddangos fod hynny'n cael ei wahardd.

Mae parcio ar draws cerbiau isel yn anystyriol a gallai fod yn beryglus i gerddwyr. Lle mae ceir wedi'u parcio mewn mannau lle mae'r palmant wedi'i ostwng (neu'r gerbydffordd wedi'i chodi) er mwyn ei gwneud yn haws i gerddwyr fynd a dod o eiddo, byddwn yn ystyried gweithredu.

### *Beth yw ystyr parcio ger cerb isel?*

Bydd cerbyd sydd wedi'i barcio ger cerb isel wedi'i barcio ar y gerbydffordd neu ar balmant ger lle mae palmant, llwybr beiciau neu lain galed wedi'i ostwng i lefel y gerbydffordd.



### *Oes yna unrhyw eithriadau i barcio ger cerb isel?*

Oes - dod o gerbyd, cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau tân, ambiwlans neu'r heddlu yn brysur ar ddyletswydd, pan mae cerbydau'n cael eu llwytho neu eu dadlwytho drwy'r amser, cerbydau ar gyfer casglu ysbwriel, gwaith adeiladu neu waith ffordd, cerbydau wedi'u parcio y tu allan i ddreif at eiddo trigiannol gyda chaniatâd y perchennog (mae'n anghyfreithlon i berchennog rentu lle ar briffordd gyhoeddus ar draws mynedfa i ddreif ac ni fyddai gyrwyr y cerbydau'n cael eu heithrio) a cherbydau wedi'u parcio ar draws dreif i eiddo trigiannol sy'n cael ei rhannu gyda chaniatâd perchnogion yr eiddo hynny.

### *Mae gen i Fathodyn Glas, ydi hynny'n effeithio arna i?*


Ydi – nid trwydded i barcio ym mhobman yw Bathodyn Glas, mae cerbiau isel yn cael eu gosod yn aml i helpu cerddwyr sy'n cael trafferth i symud.

## *Parcio Dwbl*

Ni chaniateir i yrwyr barcio eu cerbydau fwy na 50 centimetr o'r cerb pan nad yw'r cerbyd o fewn marciau lle parcio dynodedig. Gelwir y tramgwyddiad hwn fel arfer yn barcio dwbl. Mae cerbydau sy'n cael eu parcio fel hyn yn achosi anghyfleustra a pherygl diangen i ddefnyddwyr eraill y ffordd drwy flocio'r ffordd. Bydd cerbydau sy'n cael eu parcio fel hyn yn cael Rhybudd Talu Cosb gan y Swyddog Gorfodi Sifil.

Mae pwerau newydd a ganiatawyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn galluogi Cynghorau i roi Rhybudd Talu Cosb ar gerbydau wedi'u parcio'n ddwbl heb fod angen arwyddion traffig i dangos fod hynny'n cael ei wahardd.

Parcio dwbl yw lle mae cerbyd wedi'i barcio ar unrhyw ran o'r gerbydffordd heb i unrhyw ran o'r cerbyd fod o fewn 50 centimetr i ymyl y gerbydffordd (oni bai ei fod yn gyfan gwbl mewn cilan).




***Oes yna unrhyw eithriadau i barcio dwbl?***

Oes - cerbydau sydd wedi'u parcio mewn man parcio dynodedig neu unrhyw ran arall o'r gerbydffordd lle rhoddwyd caniatâd penodol i barcio, cerbydau'r gwasanaethau tân, ambiwlans neu'r heddlu yn brysur wrth eu gwaith, lle mae cerbydau'n cael eu llwytho a'u dadlwytho drwy'r amser a cherbydau ar gyfer casglu gwastraff, gwaith adeiladu neu waith ffordd.

## *Yfed a Gyrru ac Arestiadau Eraill*

Os yw gyrrwr y cerbyd wedi'i arestio ac, o ganlyniad uniongyrchol, wedi'i orfodi i adael y cerbyd gan dramgwyddo cyfyngiad parcio ar y stryd ni ddylid gorfodi unrhyw Rybudd Talu Cosb sy'n deillio o hynny oni bai bod y gyrrwr wedi cael digon o amser i symud y cerbyd yn ddiogel ar ôl ei ryddhau o'r ddalfa. (Mewn achos o yfed a gyrru, dylid caniatáu o leiaf 12 awr er mwyn gallu symud y cerbyd yn ddiogel).

Mewn pob achos o honiadau o arestio, dylid gofyn i'r gyrrwr roi'r dyddiad, amser a thystiolaeth o arestio gan gynnwys rhif y ddalfa a'r swyddog ac enw Gorsaf yr Heddlu.

## *Gollwng neu Godi Teithwyr*

Ar wahân ar glirffyrdd ac ar linellau igam ogam (mannau croesi ysgolion a cherddwyr) rhoddir amser rhesymol i unrhyw gerbyd ollwng neu godi teithwyr pa gyfyngiadau bynnag sy'n bodoli ynghylch aros neu lwytho ar y stryd .

Cyn belled â bod y Swyddog Gorfodi Sifil yn gweld y teithwyr yn cael eu codi neu eu gollwng ni ddylid rhoi Rhybudd Talu Cosb. Ond ar ôl ôl 5 munud o segurdod rhoddir Rhybudd Talu Cosb.

Wrth ystyried diddymu Rhybuddion Talu Cosb, dylid rhoi ystyriaeth arbennig i Gerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat sydd angen amser ychwanegol i ddweud eu bod wedi cyrraedd ac i dderbyn eu tâl.

## *Dyletswyddau Argyfwng*

1. **Bydd Cerbydau gyda bathodyn y Cyngor yn cael eu heithrio o'r cyfyngiadau parcio wrth wneud gwaith argyfwng ar y brifffordd.** Fodd bynnag ni ddylid parcio'r cerbydau hyn yn y fath fodd fel eu bod yn achosi anhwylustod i ddefnyddwyr eraill a cherddwyr ar y ffordd .

2. **Argyfwng Meddygol:** Disgwylir i feddygon, nyrsys a bydwragedd ar ddyletswydd argyfwng barcio'n gyfreithlon, pryd bynnag y bo'n bosibl, yn unol â'r cyfyngiadau lleol. Os yw Rhybudd Talu Cosb yn cael ei roi bydd yn cael ei ddiddymu os ceir tystiolaeth o argyfwng. Ni fydd ymweliadau rheolaidd neu wedi'u trefnu yn cael eu hystyried yn argyfwng.

3. Disgwylir i **Gerbydau heb fathodynnau** megis cerbydau preifat yn cael eu defnyddio gan Adran Briffyrdd y Cyngor Sir, Aelodau Bad Achub, Gwylwyr y Glannau a Thimau Achub Mynydd barcio'n gyfreithlon yn unol â'r cyfyngiadau lleol. Os yw Rhybudd Talu Cosb yn cael ei roi bydd yn cael ei ddiddymu os ceir tystiolaeth o argyfwng. Ni fydd ymweliadau rheolaidd neu wedi'u trefnu yn cael eu hystyried yn argyfwng.

## *Asiantau Gorfodaeth (Beilïaid, gynt)*

Mae Asiantau Gorfodaeth, fel asiantau i'r llys, yn swyddogion y llys. O'r llawer o'r swyddogaethau y maen nhw'n eu gwneud, gweithredu ar warantau yw'r un sy'n debygol o ddod i'n sylw ni. Gorchmynion llys yw'r rhain i gasglu arian a / neu nwyddau y gellir eu gwerthu am ddigon o bris i dalu'r ddyled. Bydd gan Asiantau Gorfodaeth gerbyd gerllaw bob amser ar gyfer cyflawni eu gwaith.

Ond mae rhai gweithgareddau eraill pan nad ydyn nhw angen cerbyd gerllaw, e.e. os ydyn nhw'n cyflwyno gŵys neu warant (ac nid yn ei gweithredu). O dan amgylchiadau fel hyn, bydd disgwyl iddyn nhw gydymffurfio gyda'r cyfyngiadau parcio.

Pan fyddan nhw'n cymryd nwyddau drud, neu lawer o arian parod, gallwn ddefnyddio disgresiwn pan fydd yn rhesymol gwneud hynny. Nid yw Asiantau Gorfodaeth, fodd bynnag, yn cael eu heithrio o'r ddeddfwriaeth a dylai bathodyn neu hawlen swyddogol fod yn cael ei ddangos ar y cerbyd ac, ymhellach, dylid gweld y gwaith llwytho / dadlwytho wrth iddo ddigwydd. Unwaith y bydd nwyddau wedi'u hatafaelu bydd gofyn i'r Asiant Gorfodaeth eu rhestru cyn gadael yr eiddo a gallai hyn, yn rhesymol, gymryd peth amser. O dan amgylchiadau o'r fath dylid gofyn am rif y warant, adnabyddiaeth a chadarnhad o natur y nwyddau sy'n cael eu hatafaelu cyn diddymu'r Rhybudd Talu Cosb.

## *Gwerthwyr Tai*

Nid yw Gwerthwyr Tai yn cael eu heithrio o'r cyfyngiadau parcio a dylid gorfodi'r Rhybuddion Talu Cosb bob amser.

## *Cerbydau Eithriedig*

Ystyrir fod y cerbydau canlynol wedi'u heithrio o'r cyfyngiadau parcio pan ar waith argyfwng:

1. Cerbydau'r Gwasanaeth Tân ac Achub (gan gynnwys cerbydau preifat sy'n cael eu gyrru gan staff y gwasanaethau brys megis y Bad Achub ac Ymladdwyr Tân)
2. Cerbydau'r Heddlu wedi'u marcio
3. Ambiwlans

Eithrir y cerbydau canlynol o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir:

1. Cerbydau sydd, ar yr adeg berthnasol, yn cael eu defnyddio neu wedi'u hatafaelu gan y Lluoedd Arfog.
2. Cerbydau sy'n perthyn i, neu'n cael eu defnyddio neu eu hatafaelu ar yr adeg berthnasol gan luoedd arfog ar ymweliad (megis Lluoedd yr Unol Daleithiau).

3. Cerbydau Awdurdodau Lleol (neu eu contractwyr) wrth eu gwaith statudol ac fel arall (h.y. Casglu Ysbwriel, Glanhau Strydoedd, Cynnal Priffyrdd) neu wrth waith sy'n gofyn i'r cerbyd fod gerllaw (e.e. Torri Lleiniau Glas) gan gynnwyd cerbydau Swyddogion Gorfodi Sifil.
4. Cerbydau Swyddfa'r Post a cherbydau eraill yn danfon pecynnau drwy'r post (e.e. cwmnïau cario megis UPS) Nid yw hyn yn cynnwys cerbydau preifat y mae postmyn yn eu defnyddio wrth ddanfon llythyrau. Bydd y Cyngor yn disgwyl i gerbydau o'r fath gael eu parcio'n unol ag unrhyw gyfyngiad parcio.
5. Cerbydau'r Bwrdd Trydan, Nwy, Awdurdod Dwr, Telecom Prydain a chwmnïau telegyfathrebu eraill (neu eu contractwyr) wrth eu gwaith yn gosod neu drwsio pibellau, ceblau neu offer arall yn y brifffordd.
6. Cerbydau'n cymryd rhan mewn gwaith adeiladu, tyllu a dymchwel cyfreithlon ar brifffordd.
7. Cerbydau gyda systemau pwmpio sy'n gweithio'n gyfreithlon ar brifffordd.

## *Ymladdwyr Tân ar Alwad*

Roddir cardiau 'Ymladdwr Tân ar Ymweliad' i Ymladdwyr Tân yn aml i'w harddangos ar eu cerbydau preifat. Diben y cardiau yw hysbysu pobl fod y cerbyd yn perthyn i ymladdwr tân ac na ddylid rhwystro'r cerbyd rhag ofn y bydd y gyrrwr yn cael ei alw i'r orsaf dân. Dyw hyn ddim yn caniatáu parcio'r cerbyd yn groes i reoliadau parcio a bydd Rhybuddion Talu Cosb a roddir i gerbydau'n arddangos y cardiau hyn yn cael eu gorfodi.

## *Parcio ar y palmant*

Ni ddylid parcio yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar balmant oni bai bod arwyddion yn caniatáu hynny.

Mae gyrru neu beri rhwystr ar balmant yn droseddau sy'n gallu cael eu gorfodi gan yr Heddlu.

Mae'r rhan fwyaf o gyfyngiadau aros a llwytho yn berthnasol i'r hanner hynny o brifffordd - o'r llinell ganol i'r terfyn - ac mae hyn yn cynnwys pob palmant a llain las a chaled. Rhoddir Rhybudd Talu Cosb am dorri'r cyfyngiad hyd yn oed os yw cerbyd wedi'i barcio'n gyfan gwbl y tu ôl i linell(au) melyn.

Eithrir y cerbydau canlynol o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn unig:

- Cerbydau wedi'u marcio sy'n cael eu defnyddio gan y Gwasanaethau Heddlu, Tân ac Achub ac Ambiwlans ar ddyletswydd argyfwng.
- Cerbydau a ddefnyddir ar gyfer Goleuo a Glanhau Strydoedd a Chasglu Ysbwriel cyn belled â'u bod wrth y gwaith.
- Cerbydau sydd â rhan mewn gwaith ar, neu gynnal. priffyrdd neu gyfleustodau cyhoeddus.

Gellir rhoddi Rhybudd Talu Cosb hefyd fel a ganlyn

- Lorïau trymion wedi'u parcio ar balmant
- Lle mae Gorchymyn Rheoli Traffig yn gwahardd yn benodol barcio ar balmant.

## *Angladdau a Phriodasau*

Ni roddir Rhybuddion Talu Cosb mewn achosion o

- Angladdau - yr hers a cherbydau'r galarwyr
- Priodasau - Cerbydau'r Briodferch

Fodd bynnag, ni fydd galarwyr neu wahoddedigion priodas heb ran uniongyrchol yn y gwasanaeth yn gallu parcio yn groes i gyfyngiad parcio. Dylid fodd bynnag, ystyried unrhyw Rybudd Talu Cosb a roddwyd ar gerbyd yn gysylltiedig ag angladd neu briodas gyda dyledus barch.

## *Modurdai - Cerbydau'n cael eu gadael heb neb yn eu gwarchod*

Pan fydd gweithiwr modurdai'n parcio cerbyd ar briffordd, yn groes i gyfyngiad traffig, wrth wneud gwaith cynnal ar gerbyd (er mwyn hwyluso symud cerbydau yn y garej) cyfrifoldeb y perchennog fydd y Rhybudd Talu Cosb a roddir ar y cerbyd. Does gan fodurdai ddim hawl i ddefnyddio'r briffordd fel hyn a dylid gorfodi'r Rhybuddion Talu Cosb bob amser mewn achosion o'r fath.

## *Gwydrwyr*

Dylid bod yn drugarog wrth drin honiadau oddi wrth wydrwyr bod yn rhaid parcio cerbyd, mewn argyfwng, yn agos at ble'r oedd car yn cael ei drwsio cyn belled â bod nodiadau'r Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau fod y gwaith yn cael ei wneud pan gyflwynwyd y Rhybudd Talu Cosb. Ni fydd Rhybuddion Talu Cosb yn cael eu diddymu os nad oedd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith ar y pryd.

## *Cerbydau Hacni / Llogi Preifat*

Mae pob Cerbyd Hacni a Llogi Preifat sy'n gweithredu yn y Sir yn cael eu trwyddedu gan y Cyngor perthnasol ac y mae'n rhaid dangos plât rhif y drwydded ar du ôl y cerbyd (mae'n rhaid i'r plât ddangos nifer y teithwyr y gellir eu cario, rhif cofrestru'r cerbyd a rhif trwydded yr Awdurdod Lleol).

Mae Cerbydau Hacni’n wahanol i Gerbydau Llogi Preifat. Ni chaniateir i Gerbydau Llogi Preifat deithio nac aros i gael eu llogi ar Briffordd Gyhoeddus na dangos arwydd TACSI nag unrhyw arwydd i wneud i'r cerbyd edrych fel cerbyd hacni.

Trwyddedir Cerbydau Hacni gan awdurdodau lleol ac fe'u gwaherddir rhag ceisio cael eu llogi mewn ardal awdurdod arall.

Gall Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat, fel pob cerbyd, aros er mwyn i deithwyr fynd a dod o'r cerbyd cyn belled â bo hynny'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer y diben. Nid yw rhoi cymorth i deithwyr fynd i'w heiddo a gadael y cerbyd heb neb yn gofalu amdano yn weithgaredd sy'n cael ei eithrio ond mae'n rhaid i bob gyrrwr sicrhau diogelwch y bobl sy'n cael eu cario neu'n dod i mewn neu allan o'u cerbyd.

Os yw Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat trwyddedig yn cael ei adael heb neb yn gofalu amdano am fwy na deg munud bydd yn agored i gael Rhybudd Talu Cosb. Wrth ystyried sylwadau mae’n rhaid cofio y dylid rhoi amser i’r gyrrwr ddweud ei fod wedi cyrraedd pan fo Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat yn cael ei alw i gyfeiriad. Bydd unrhyw gerbyd, gan gynnwys Cerbyd Hacni / Cerbyd Llogi Preifat, wedi parcio y tu allan i resi tacsis yn groes i gyfyngiad parcio yn derbyn Rhybudd Talu Cosb.

**(Gweler hefyd Resi Tacsi)**

## *Llinellau Croes mewn Meysydd Parcio*

Gosodir llinellau croes ar wyneb maes parcio i ddangos mannau lle nad yw parcio'n cael ei ganiatáu. Bydd cerbydau sy’n cael eu gweld wedi parcio ar linellau croes yn cael Rhybudd Talu Cosb.

## *Sylweddau / Cemegolion Peryglus*

Dylid ystyried yn ofalus honiadau gan gwmnïau fod cerbyd cael ei ddefnyddio i ddanfon neu gasglu sylweddau gwenwynig neu beryglus o eiddo pan gafodd y Rhybudd Talu Cosb. Os rhoddwyd y Rhybudd Talu Cosb am dorri cyfyngiad parcio gellir gweld o nodiadau'r Swyddog Gorfodi Sifil a oedd y cerbyd yn cael ei lwytho neu ei ddadlwytho ar y pryd. Os nad oedd unrhyw waith yn digwydd dylid gorfodi'r Rhybudd Talu Cosb. Does dim rheswm, yn yr achos hwn, i wahaniaethu rhwng danfon rhywbeth gwenwynig a rhywbeth an-wenwynig gan mai cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau fod y cerbyd yn cael ei symud ar unwaith ar ôl llwytho neu ddadlwytho. (Gweler y diffiniad o Lwytho / Dadlwytho). Yn ddelfrydol, os oes pryderon difrifol ynghylch Iechyd a Diogelwch dylai'r awdurdod dderbyn gwybodaeth ymlaen llaw yn ei gylch.

Os rhoddwyd y Rhybudd Talu Cosb am dorri cyfyngiad parcio yna, unwaith eto, dylid edrych ar nodiadau'r Swyddog Gorfodi Sifil i weld a oedd unrhyw waith llwytho'n cael ei wneud ar y pryd. Os oedd, dylid ystyried yn ddifrifol diddymu'r Rhybudd Talu Cosb o gofio am Iechyd a Diogelwch y cyhoedd. Dylai unrhyw sylwadau ynghylch hyn gynnwys tystiolaeth ddogfennol yn dangos natur y nwyddau oedd yn cael eu danfon.

## *Cytundeb Llogi*

Mae'r ddeddfwriaeth yn dweud, mewn achos o gerbyd wedi'i logi, mai llogwr y cerbyd ar y pryd sy'n gyfrifol am dalu Rhybudd Talu Cosb. Felly, mewn achos o'r fath, nid y perchennog sy'n gyfrifol am dalu'r gosb a gall y Cwmni Llogi gyflwyno sylwadau ffurfiol i'r Cyngor unwaith y bydd wedi derbyn Rhybudd i Berchennog.

Rhaid i gopi o'r cytundeb llogi fod i ganlyn y sylwadau. Ym mhob achos dylai'r cytundeb ddangos yn glir: Enw a chyfeiriad y llogwr, dyddiadau cychwyn a darfod y cyfnod llogi a llofnod y llogwr. Mae'n rhaid iddo hefyd gynnwys datganiad ynghylch cyfrifoldeb y llogwr i dalu unrhyw Rybudd Talu Cosb a geir yn ystod y cyfnod llogi.

Pe byddai unrhyw un o'r uchod yn aneglur, yn absennol neu'n wahanol i ddyddiad / amser y Rhybudd Talu Cosb yna bydd y Rhybudd yn cael ei orfodi yn erbyn y Cwmni Llogi a bydd rhybudd o wrthod y sylwadau'n cael ei anfon ato gyda'r rhesymau'n cael eu dangos yn glir.

## *Gwyliau*

Gadewir cerbydau mewn un man yn aml tra bo'r perchennog i ffwrdd ar wyliau. Mewn achosion o'r fath, gellir rhoi Rhybudd Talu Cosb am barcio mewn man parcio wedi'i ohirio ar y stryd neu am beidio ag arddangos hawlen ymwelwyr ddilys ar gyfer parth parcio trigiannol ar y stryd.

Cilfan wedi'i Gohirio

- Mae gan y Cyngor hawl i ohirio parcio mewn cilfan barcio ddynodedig er mwyn i gerbyd penodol gael mynediad neu er mwyn cynnal y briffordd neu'r gilfan. Mewn achosion o'r fath gosodir hysbysebion ymlaen llaw ger y gilfan a'u rhannu i eiddo cyfagos gan roi'r dyddiad, amserau a hyd y gohiriad.
- Os yw'r hysbysebion hyn yn cael eu rhannu ar ôl i'r perchennog fynd ar ei wyliau yna dyllid diddymu unrhyw Rybudd Talu Cosb. Dylid dangos tystiolaeth o ddyddiad ac amser gadael (h.y. Tocynnau hedfan ayb). Dylid ei gymharu gyda chofnodion arddangos a rhannu'r hysbysebion. Yn ei hanfod, ni ellir gorfodi'r gohiriad yn ôl-weithredol.

Parth Parcio Trigiannol a Hawlenni Ymwelwyr

- Weithiau, bydd ffrindiau yn mynd ar eu gwyliau mewn un cerbyd ac yn gadael yr ail gerbyd wedi'i barcio gydol y gwyliau. O ganlyniad, weithiau bydd cerbyd yn perthyn i rywun nad yw'n drigolyn yn cael ei adael mewn parth parcio Trigiannol ac yn arddangos hawlen ymwelwyr.

- Mae hawlenni ymwelwyr ar gyfer ymwelwyr dilys ag eiddo trigolyn ac mae'n rhaid iddyn nhw gael eu dangos yn glir a bod yn ddilys ar adeg sylwi. Ystyrir fod arddangos hawlenni a gafodd eu llenwi ymlaen llaw yn annilys a bydd Rhybudd Talu Cosb yn cael ei roi o ganlyniad.
- Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r cerbydau hyn yn perthyn i bobl sy'n ymweld â'r eiddo trigiannol mewn gwirionedd ac felly bydd y Rhybuddion Talu Cosb yn cael eu gorfodi.

## *Aelodau a Swyddogion eraill yn ymyrryd yn y broses o Herio a Chyflwyno Sylwadau*

Mae'r broses o ymdrin â heriadau a sylwadau yn erbyn Rhybuddion Talu Cosb yn cael ei dangos yn glir yn ysgrifenedig a bydd yn cael ei chynnal mewn ffordd deg, diduedd a chyfartal. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys yr hawl yn y pen draw i apelydd gyfeirio'r mater at ganolwr annibynnol (Tribiwnlys Cosbau Traffig). Er mwyn diogelu dilysrwydd y gweithdrefnau hyn bydd Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru yn eu rheoli ar y cyd gyda Rheolwyr Parcio pob awdurdod ac nid oes gan Gynghorwyr nac uwch swyddogion, oherwydd eu swydd, hawl i amharu'n annheg ar y penderfyniadau.

## *Deddfwriaeth*

Y deddfau sy'n rheoli gorfodaeth parcio yw: Deddf Rheoli Traffig 2004 a Deddf Rheoli Traffig Ffordd 1984. Os yw gyrrwr yn amau'r dilysrwydd y ddeddfwriaeth dylid cyflwyno eglurhad syml. Does dim angen rhoi cyfeiriadau penodol oni bai y gofynnir am hynny.

Pan fydd y Cyngor yn cael cais o'r fath bydd yn ateb drwy gyfeirio at baragraffau penodol, perthnasol ac yn eu dyfynnu air am air. Ni fydd y Cyngor yn rhoi copïau cyfan o'r ddeddf berthnasol, gellir ei chael o Lyfrfa'r Llywodraeth, neu, yn achos deddf 2004, ei chael o'r rhyngrwyd.

Os yw perchennog yn amau'r awdurdod y tu ôl i gyfyngiad penodol dylid cyfeirio at y Gorchymyn Rheoli Traffig perthnasol sydd gan yr awdurdod lleol. Cyn gohebu gyda'r perchennog dylid darllen y Gorchymyn er mwyn sicrhau fod y Rhybudd Talu Cosb yn ddilys. Os cyfyd unrhyw amheuaeth dylid diddymu'r Rhybudd Talu Cosb a dweud hynny wrth y perchennog. Ni ddylid rhoi unrhyw gyngor cyfreithiol.

## *Llwytho / Dadlwytho*

Caniateir i gerbydau barcio'n groes i gyfyngiadau aros, gan gynnwys mewn Parthau Parcio Trigolion, wrth Lwytho a Dadlwytho'n gyfreithlon cyn belled:

1. â bod y Swyddog Gorfodi Sifil yn gweld y cerbyd yn cael ei lwytho neu ei ddadlwytho. Bydd y cyfnod sylwi yn bum munud o leiaf ar gyfer cerbyd preifat a 10 munud at gyfer cerbyd masnachol a dim ond os na welir unrhyw weithgaredd yn ystod y cyfnod hwnnw y rhoddir Rhybudd Talu Cosb.
2. bod y nwyddau sy'n cael eu danfon neu eu casglu yn cyd-fynd gyda'r diffiniad o nwyddau (gweler y 'Diffiniadau' isod).
3. Caniateir 10 munud i yrrwr cerbyd nwyddau gwblhau gwaith papur.
4. Pan roddir Rhybudd Talu Cosb ystyrir sylwadau os ceir tystiolaeth fod y gyrrwr wedi cael ei ddal yn ôl neu wrthi'n symud nwyddau trwm.

**Gweler hefyd - "Nwyddau - Diffiniad" pan mae'n berthnasol i Lwytho / Dadlwytho**

## *Lleoliad – Anghywir*

Nodir ar y Rhybudd Talu Cosb leoliad y cerbyd ar y pryd. Os yw hyn yn cael ei gofnodi'n anghywir ystyrir fod hynny'n gamgymeriad sylweddol a bydd y Rhybudd yn cael ei ddiddymu.

## *Colli Goriadau*

Pan honnir fod goriadau cerbyd wedi'u colli, eu lladrata neu wedi'u cloi mewn cerbyd fel na ellir ei symud o fan parcio a bod hynny wedi arwain at dderbyn Rhybudd Talu Cosb, yna dylid rhoi sylw dyladwy i'w ddiddymu. Wrth ystyried hyn, dylai'r sylwadau gynnwys unrhyw dystiolaeth oddi wrth yr heddlu, sefydliadau modur neu berthnasau i gefnogi'r honiad. Dylid ystyried y canlynol hefyd:

- Os oedd y cerbyd wedi'i barcio mewn maes parcio talu ac arddangos, a oedd colli'r goriadau'n golygu na ellid prynu rhagor o amser aros?
- Os oedd cerbyd wedi'i barcio ar linell felen a ddylai fod wedi'i barcio yno yn y lle cyntaf?

## *Argyfyngau Meddygol*

Os yw'r modurwr yn cyflwyno tystiolaeth o argyfwng meddygol sy'n cyd-fynd â'r amodau a ddisgrifir neu os yw'r Swyddog Gorfodi Sifil wedi gwneud nodyn sy'n cefnogi sylwadau'r modurwr gallwn eu derbyn a diddymu'r Rhybudd Talu Cosb. Os na all modurwr roi rhyw brawf o argyfwng meddygol sy'n gyson gyda'r amgylchiadau a ddisgrifir neu os yw tystiolaeth arall yn gwrthddweud honiad y modurwr gallwn wrthod y sylwadau. Bydd pob achos yn cael ei drin yn unigol a gallwn hefyd gyfeirio at unrhyw Rybuddion Talu Cosb eraill a roddwyd i berchennog y cerbyd hwnnw.

## *Camsillafu Enw Perchennog*

Nid yw camsillafu enw a / neu gyfeiriad perchennog ar y Rhybudd i Berchennog yn ei wneud yn annilys nac yn golygu nad oes raid i'r person sy'n ei dderbyn dalu'r gosb. Mae'n dal yn gyfrifoldeb ar y perchennog gwirioneddol i ddelio gyda'r mater. Ceir yr enw a'r cyfeiriad fel arfer gan yr Awdurdod Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau sydd, yn ei dro, wedi eu cael gan y perchennog ei hunan. Cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau eu bod yn gywir. Mae'n rhaid newid unrhyw gamsillafu ar unwaith er mwyn sicrhau y bydd unrhyw rybudd a anfonir yn y dyfodol yn gywir. Pan fo'r camsillafu'n ddifrifol, ac yn wahanol iawn i'w sillafiad cywir, dylid ystyried diddymu'r Rhybudd Talu Cosb.

## *Amgylchiadau Lliniaru*

Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol a chyfeirir at amgylchiadau penodol mewn mannau eraill yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, dyma rai canllawiau:

1. OEDIADAU: Nid yw oedi oherwydd ciwiau mewn siopau, banciau ayb, cyfarfodydd yn cymryd yn hwy na'r disgwyl, y gyrrwr yn cael ei ddal mewn torf ayb yn cael eu hystyried yn rhesymau dilys dros ddiddymu Rhybudd Talu Cosb. Dylid prynu digon o amser parcio ar gyfer amgylchiadau o'r fath gan eu bod yn rhan reolaidd a naturiol o fywyd pob dydd. (Gweler 'argyfwng' isod).
2. PLANT / HEN BOBL Ceir honiadau'n aml gan bobl bod y plant neu'r hen bobl oedd gyda nhw wedi peri iddyn nhw fod yn hwyr. Unwaith eto, ni ddylid ystyried hyn yn rheswm dros ddiddymu Rhybudd Talu Cosb gan y dylid bod wedi ystyried hynny wrth brynu amser parcio. (Gweler 'argyfwng' isod). Ni ddylid diddymu Rhybuddion Talu Cosb yr honnir eu bod wedi eu rhoi tra'r oedd plant yn cael eu danfon neu eu casglu o'r ysgol ayb ond bai na roddwyd amser rhesymol i wneud hynny gan y Swyddog Gorfodi Sifil. Dylai'r cyfnod sylwi arferol o bum munud fod yn ddigon ar gyfer amgylchiadau o'r fath.
3. ARGYFYNGAU: Argyfwng yw sefyllfa na ellid bod wedi'i rhagweld sydd wedi rhwystro'r gyrrwr rhag symud y cerbyd. Rhai meddygol yw'r rhain fel arfer a dylid bod yn drugarog lle y gellir gweld na allai'r gyrrwr fod wedi rhagweld y sefyllfa. Pan fydd hynny'n bosibl dylai honiadau fel hyn gael eu cefnogi gan dystiolaeth annibynnol.

## *Ffonau symudol:*

Dim ond y cyfnod sylwi perthnasol a ganiateir i yrrwr cerbyd sydd wedi parcio'n groes i reolau parcio i orffen galwad ar ffôn symudol cyn y rhoddir Rhybudd Talu Cosb. Bydd y cyfnod sylwi perthnasol yn dibynnu ar y tramgwyddiad parcio sy'n cael ei gyflawni ac ar y math o gerbyd - a yw'n gerbyd preifat neu'n un masnachol. **Gweler "Codau Tramgwyddiadau Safonol ac Amseroedd Sylwi"**

## *Cilfannau Beiciau Modur*

Nid yw'r rhain yn gilfannau statudol ond yn hytrach yn eithriadau o'r cyfyngiadau arferol un ai ar y stryd neu mewn meysydd parcio. Felly, bydd unrhyw gerbyd heblaw beic modur sydd wedi parcio mewn cilfan o'r fath yn gwneud hynny'n groes i'r cyfyngiadau amgylchynol, nid oherwydd ei fod wedi parcio mewn cilfan beic modur.

Gall beiciau modur barcio yn rhad ac am ddim mewn cilfannau dynodedig ar gyfer beiciau modur (os dangosir hynny). Os yw beic modur wedi parcio mewn cilfan i gerbyd mae'n rhaid talu'r ffi i gar a bydd yn rhaid i'r gyrrwr gadw'r tocyn talu ac arddangos (does dim modd arddangos y tocyn ar feic modur).

## *Honiadau gan Fodurwr nad yw'n teimlo'n dda*

Os yw'r modurwr yn cyflwyno tystiolaeth o gyflwr meddygol, dros dro neu barhaol, sy'n cyd-fynd â'r amodau a ddisgrifir neu os yw'r Swyddog Gorfodi Sifil wedi gwneud nodyn sy'n cefnogi sylwadau'r modurwr gallwn eu derbyn a diddymu'r Rhybudd Talu Cosb. Os na all modurwr roi rhyw brawf o argyfwng meddygol sy'n gyson gyda'r amgylchiadau a ddisgrifir neu os yw tystiolaeth arall yn gwrthddweud honiad y modurwr gallwn wrthod y sylwadau. Bydd pob achos yn cael ei drin yn unigol a gallwn hefyd gyfeirio at unrhyw Rybuddion Talu Cosb eraill a roddwyd i berchennog yr un cerbyd. **Gweler 'Argyfyngau Meddygol'**

## *Modurwr nad yw'n Berchennog nac yn Geidwad neu sydd wedi gwerthu'r cerbyd ar adeg y Tramgwyddiad*

Gallwn dderbyn sylwadau yn erbyn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb os:

- Yw'r perchennog cofrestredig yn gallu dangos prawf ei fod wedi cael gwared ar y cerbyd cyn y tramgwyddiad e.e. nodyn gwerthu, dogfennau cofrestru, dogfennau yswiriant neu lythyr oddi wrth yr Awdurdod Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau a / neu
- fod y perchennog cofrestredig presennol yn gallu rhoi enw a chyfeiriad llawn y person sydd wedi cael y cerbyd a'r dyddiad y cafodd ei drosglwyddo.
- Fod y perchennog cofrestredig yn gallu dangos prawf ei fod wedi prynu'r cerbyd cyn y tramgwyddiad e.e. nodyn gwerthu, dogfennau cofrestru, dogfennau yswiriant neu lythyr oddi wrth yr Awdurdod Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau a / neu
- fod y perchennog cofrestredig presennol yn gallu rhoi enw a chyfeiriad llawn y person y prynodd y cerbyd a'r dyddiad y cafodd ei drosglwyddo.

## *Rhybudd Gwrthod neu Dderbyn Sylwadau Ffurfiol*

Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i anfon Rhybudd o Dderbyn neu o Wrthod o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn sylwadau ffurfiol gan berchennog cerbyd.

- Rhybudd o Dderbyn. Bydd hyn yn cadarnhau fod y sylwadau wedi'u derbyn a bod cyfrifoldeb y person am y Rhybudd Talu Cosb wedi'i ddiddymu
- Rhybudd o Wrthod. Mae hyn yn gwrthod y sylwadau'n ffurfiol ac yn rhoi rhesymau clir pam fod y Cyngor wedi dod i'r casgliad hwn. I ganlyn y gwrthodiad bydd ffurflenni a chyfarwyddiadau ynghylch sut y gellir cyflwyno sylwadau pellach i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig. Mae'n rhaid i'r sylwadau gael eu cyflwyno o fewn 28 diwrnod o dderbyn y Rhybudd o Wrthod.

## *Cyfnod Sylwi – Cyn rhoi Rhybudd Talu Cosb*

Cyn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb bydd y Swyddogion Gorfodi Sifil yn caniatáu, ar gyfer y rhan fwyaf o dramgwyddiadau, o leiaf 5 munud o gyfnod rhwng sylwi am y tro cyntaf fod cerbyd wedi parcio'n anghyfreithlon a chyflwyno rhybudd talu cosb. Bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn rhoi manylion y cerbyd yn y cyfrifiadur llaw pan fydd yn ei weld gyntaf a bydd y cyfrifiadur yn gwrthod rhoi Rhybudd Talu Cosb am y pum munud nesaf.

Bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu dal i fynd ar batrôl cyn belled ag y bydd yn gallu dal i weld y cerbyd cyn dychwelyd ato. Gall y cyfnod sylwi a'r amser y rhoddir y Rhybudd Talu Cosb fod yn cael ei ddangos ar y Rhybudd ei hunan a bydd yn cael ei gofnodi gan y meddalwedd gorfodi.

## *Peiriannau Talu ac Arddangos – Heb sylweddoli bod un yno*

Dylid gwrthod honiadau gan berchnogion nad oedden nhw wedi gweld neu sylweddoli fod yn rhaid iddyn nhw ddefnyddio peiriannau talu ac arddangos cyn belled a bod arwyddion clir yn dangos eu bod yno.

## *Peiriant Talu ac Arddangos – Ddim yn gweithio*

Pan honnir nad yw peiriant yn gweithio yna dylid edrych ar y cofnodion cynnal a chadw a nodiadau'r Swyddogion Gorfodi Sifil (gwirir y peiriannau cyn dechrau pob patrol). Os cadarnheir nad oedd y peiriant yn gweithio ar y pryd yna dylid ystyried diddymu'r Rhybudd Talu Cosb. Os oes peiriant arall gerllaw, a hwnnw'n gweithio, byddai'n rhesymol disgwyl i'r gyrrwr ei ddefnyddio.

## *Tocynnau Talu ac Arddangos*

Mae'r rhan fwyaf o feysydd parcio'r Cyngor yn rhai talu ac arddangos. Mae talu ac arddangos yn golygu bod yn rhaid prynu tocyn ar adeg parcio am y cyfnod angenrheidiol. Bydd pob tocyn yn dangos yr amser pan ddaw i ben, y ffi a dalwyd ac enw'r maes parcio. Bydd prisiau'r maes parcio'n cael eu dangos yn glir ger pob peiriant. Mae'n rhaid i docynnau Talu ac Arddangos:

1. Gael eu dangos yn glir ar y cerbyd sydd wedi'i barcio.
2. Ar y dyddiad a ddangosir
3. Heb fod wedi dod i ben
4. Ar gyfer y maes parcio a ddangosir
5. Ar y cerbyd a ddangosir - pan yn berthnasol

Rhoddir Rhybuddion Talu Cosb am:

1. Beidio â dangos tocyn dilys
2. Dangos tocyn sydd wedi dod i ben

Ni ddiddymir rhybudd oherwydd bod gyrrwr wedi prynu tocyn ond heb ei arddangos gan mai cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau fod y tocyn i'w weld yn glir gydol y cyfnod y mae'r cerbyd wedi'i barcio. Ni dderbynnir sylwadau nad oedd y gyrrwr wedi prynu tocyn gan nad oedd ganddo newid.

Rhag peri unrhyw ddryswch, mae dangos yn golygu gosod y tocyn talu ac arddangos a'i wyneb at y gwydr ar ffenestr flaen y cerbyd fel y gellir gweld yn glir drwy'r ffenestr yr holl wybodaeth ynghylch amser cyrraedd a gadael a'r swm a dalwyd.

Ymdrinnir â sylwadau oherwydd y bu oedi cyn dychwelyd i'r maes parcio yn unol â'r 'amgylchiadau lliniaru' uchod.

## *Rhybudd Talu Cosb – Cyflwyno Cynamserol*

Bydd gofyn ymchwilio'n fanwl i honiadau y cyflwynwyd y Rhybudd Talu Cosb cyn yr amser yr honnir i'r tramgwyddiad ddigwydd. Rheolir cyflwyno Rhybuddion Talu Cosb gan y Cyfrifiaduron llaw sydd gan bob Swyddog Gorfodi Sifil. Mae'r clociau yn y cyfrifiaduron hyn yn cael eu graddnodi bob bore cyn cychwyn ar batrôl. Yn ôl y gofyn, bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn gosod cyfnod sylwi cyn caniatáu i Rybudd Talu Cosb gael ei gyflwyno . Bydd yr amserau'n ymddangos ar y Rhybudd Talu cosb fel 'Amser Gweld Gyntaf' ac 'Amser Cyflwyno'. Bydd y cyfrifiadur yn rhwystro newid yr amserau yma. Y drefn arferol yw bod y Swyddog Gorfodi Sifil yn gosod y manylion sylwi yn y cyfrifiadur ac yna symud ymlaen ar batrôl cyn dychwelyd at y cerbyd a chyflwyno'r Rhybudd Talu Cosb. Gan amlaf, rhaid caniatáu o leiaf bum munud rhwng sylwi ar y cerbyd a chyflwyno'r Rhybudd - oni bai bod y tramgwyddiad yn haeddu Rhybudd Talu Cosb ar unwaith.

## *Rhybudd Talu Cosb – Cerbyd yn y lle anghywir*

Dylid ystyried yn ofalus honiadau gan fodurwyr nad oedd eu cerbyd yn y lle ar yr amser a'r dyddiad a ddangosir ar y Rhybudd Talu Cosb.

Ar ôl ystyried y cyfan o'r dystiolaeth sydd ar gael efallai y byddwn yn derbyn sylwadau yn erbyn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb os:

- Yw'r modurwr yn cyflwyno copi o drwydded y cerbyd (y disg treth) a oedd yn ddilys ar adeg y tramgwyddiad ac sydd â rhif cyfres gwahanol i'r rhif a nodwyd gan y Swyddog Gorfodaeth.

Gellir gwrthod y sylwadau os

- Yw'r dystiolaeth ffotograffig a gasglodd y Swyddog Gorfodi Sifil ar adeg y tramgwyddiad yn profi fod y cerbyd wedi'i barcio yn y lle a nodir ar y Rhybudd Talu Cosb.
- Nad yw'r modurwr yn cyflwyno copi o'r disg treth ar ôl cael cyfle i wneud hynny.
- Yw'r copi o'r disg treth yn dangos fod y rhif cyfres ar y disg yr un fath a'r rhif cyfres a nodwyd gan y Swyddog Gorfodi Sifil.
- Nad oes unrhyw arwydd fod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cefnogi'r honiad neu ei fod yn amhendant.
- Mae'r un unigolyn wedi gwneud honiadau o'r blaen a oedd heb eu profi.

## *Rybuddion Talu Cosb – Wedi'u tynnu oddi ar y cerbyd / heb eu derbyn*

Mae'n drosedd o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 dynnu neu amharu heb awdurdod ar Rybudd Talu Cosb unwaith y mae wedi cael ei osod ar gerbyd.

Bydd gofyn ystyried yn ofalus honiad gan berchennog cofrestredig na chafodd y Rhybudd Talu Cosb. Mae hyn oherwydd y bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn casglu tystiolaeth ffotograffig ar adeg y tramgwyddiad i brofi y gosodwyd y Rhybudd Talu Cosb ar y cerbyd.

Os byddwn yn cael gohebiaeth yn honni na dderbyniwyd y Rhybudd Talu Cosb byddwn yn archwilio tystiolaeth y Swyddog Gorfodi Sifil. Os derbynnir na dderbyniwyd y Rhybudd Talu Cosb byddwn yn ysgrifennu at berchennog cofrestredig y cerbyd i'w hysbysu y derbynnir 50% o'r gosb, sef £35 neu £25 yn dibynnu ar y tramgwyddiad) mewn setliad llawn os yw'n cael ei dalu o fewn 14 diwrnod. Os yw'r Rhybudd yn dal heb ei dalu o fewn 14 diwrnod bydd yn cael ei drin drwy'r System Adfer Rhybudd Talu Cosb arferol.

Pan honnir na chafwyd y Rhybudd Talu Cosb, archwilir y system prosesu rhybuddion er mwyn sicrhau na wnaeth yr un person honiadau tebyg o'r blaen. Os oes hanes o honiadau o'r fath ni ddylid ailgychwyn y cyfnod disgownt a bydd yn rhaid talu'r swm yn llawn.

## *Rhybuddion Talu Cosb – Amser i Dalu / Talu fesul Tipyn*

Fel rheol ni fydd y Cyngor yn cytuno i dderbyn taliadau fesul tipyn. Dim ond pan ellir dangos caledi ariannol gwirioneddol y dylai fod yna eithriadau i hyn. **Ni fydd y Cyngor yn ystyried trefniadau fel hyn ar y cyfnod cosb ddisgownt - neu os cyflwynwyd gwarant i adfer y swm sy'n ddyledus, er y gall yr Asiant Gorfodi gytuno i dderbyn taliadau fesul tipyn.**

- Rhaid i geisiadau fod yn ysgrifenedig ac ymatebir i geisiadau o fewn 8 diwrnod gwaith
- Rhaid i'r cais gynnwys cynnig i dalu a bod â thystiolaeth i'w ganlyn i gefnogi honiad o galedi ariannol.
    - o Pan fydd y ddyled o ganlyniad i fod mwy nag un Rhybudd Talu Cosb heb ei dalu bydd y Cyngor yn disgwyl i o leiaf un gael ei setlo bob mis.
    - o Bydd yn rhaid talu'r Rhybudd hynaf yn gyntaf rhag i'r Rhybudd Talu Cost gyda disgownt gael ei dalu'n gyntaf.
    - o Bydd peidio â chadw at y trefniadau'n arwain at argymell gorfodaeth.
    - o Bydd y Cyngor yn agor ffeil wahanol ar gyfer pob trefniant o'r fath a bydd yn cael ei hadolygu gan arolygydd bob mis.

## *Rhybudd Talu Cosb – Cerbyd wedi'i yrru ymaith cyn i Rybudd Talu Cosb gael ei osod.*

Os yw llyfr nodiadau a nodiadau cyfrifiadur y Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau y gyrrwyd y cerbyd i ffwrdd cyn dechrau cyflwyno'r Rhybudd Talu Cosb h.y. wrth nodi'r manylion ond cyn y gellid cyflwyno'r Rhybudd Talu Cosb h.y. ei roi i'r gyrrwr neu ei osod ar y cerbyd, gellir cyflwyno'r Rhybudd i'r gyrrwr drwy'r post ar ôl cael manylion y perchennog oddi wrth yr Asiantaeth Drwyddedu.

## *Cyfradd Talu Cosb*

Gosodwyd y cyfraddau Rhybudd Talu Cosb ar £70 a £50 yn dibynnu ar y math o dramgywddiad parcio. Dim ond ar ôl derbyn arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad y gellir eu cynyddu a hynny ar ôl eu hysbysebu cyn eu cyflwyno. Os yw'r Rhybudd Talu Cosb cael ei dalu o fewn 14 diwrnod o'i gyflwyno derbynnir 50% o'r gosb, sef £35 neu £25 yn dibynnu ar y tramgwyddiad) mewn setliad llawn.

## *Hawlenni (neu Drwyddedau) mewn Meysydd Parcio*

Staff gweinyddol yr awdurdodau priodol sy'n dosbarthu hawlenni a gall y rhain fod o wahanol fathau:

- Hawlen Maes Parcio Arhosiad Hir – yn ddilys ar gyfer parcio mewn meysydd parcio tymor hir penodol yn ardal yr awdurdod. Dydyn nhw ddim yn gwarantu y bydd lle i'r defnyddiwr nac, o bosibl yn rhoi hawl i'r deilydd barcio am ddim mewn meysydd parcio yn rhywle arall.
- Hawlenni Meysydd Parcio Tymhorol (Meysydd Parcio Traethau)
- Contract / Ar Gadw – yn ddilys ar gyfer parcio mewn lle penodol mewn maes parcio a enwir.
- Hawlenni / Tocynnau Digwyddiadau Arbennig - defnyddir y rhain ar rai achosion prin a byddant yn dangos y maes parcio y maen nhw'n ddilys ar ei gyfer, y dyddiad pan maen nhw'n ddilys a'r digwyddiad sy'n cael ei gynnal.

**Gweler "Parcio i Drigolion"**

## *Plymwyr, Trydanwyr a Gosodwyr Nwy*

Galw allan mewn argyfwng: Ystyrir y bydd argyfwng yn parhau mor hir ag y mae'n ei gymryd i wneud yr eiddo'n ddiogel h.y. i ddiffodd y prif gyflenwad. Ar ôl hynny, dylid symud pob cerbyd i le parcio priodol cyn dechrau ar unrhyw waith atgyweirio.

## *Swyddogion yr Heddlu ar Ddyletswydd*

Nid ddylid rhoi Rhybuddion Talu Cosb ar gerbydau heddlu wedi'u marcio ac sydd ar ddyletswydd swyddogol. Mae'n rhaid i geisiadau am ganslo Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd ar gerbydau'r heddlu heb eu marcio ddod oddi wrth Arolygydd ardal y swyddog neu swyddog arall o radd debyg. Dylai'r cais gadarnhau fod y swyddog ar fusnes swyddogol ac y byddai wedi bod yn amhriodol parcio'r cerbyd yn rhywle arall.

Ni fydd Rhybuddion Talu Cosb a roddwyd ar gerbydau'r heddlu sy'n cael eu parcio'n rheolaidd y tu allan i swyddfeydd yr heddlu yn cael eu diddymu'n awtomatig gan y gellid cyfrif hyn yn fan gwaith ac felly'n ddim gwahanol i weithle unrhyw berson cyflogedig arall.

## *Rhoddodd Swyddog yr Heddlu / Swyddog Gorfodi Sifil Ganiatâd i Barcio*

Pan roddir manylion y swyddog o dan sylw, dylid gofyn am gadarnhad cyn diddymu'r Rhybudd Talu Cosb. Pan na roddir y manylion bydd y Rhybudd Talu Cosb yn cael ei orfodi oni bai y ceir y manylion yn ddiweddarach.

Ni fydd Swyddog Gorfodi Sifil yn caniatáu pobl i barcio yn groes i unrhyw rwystr parcio.

## *Beichiogrwydd - Rhieni gyda Phlant Ifanc.*

Yn gyffredinol nid yw beichiogrwydd yn cael ei gyfrif yn anabledd ac ni fydd oedi mewn symud cerbyd yn cael ei achosi gan blant ifanc yn arwain, fel rheol, at ddiddymu Rhybudd Talu Cosb. Fodd bynnag, mae hwn yn faes sensitif a dylid trin pob achos yn unigol. Hynny yw, os oedd yr oedi am gyfnod byr (hyd at ddeg munud) neu wedi'i achosi gan argyfwng meddygol, plentyn yn sâl neu ferch feichiog ddim yn teimlo'n dda, efallai y dylid dangos trugaredd. Os achoswyd yr oedi gan riant nad oedd wedi gadael digon o amser i ymdrin â phlant ifanc neu â'i chyflwr ei hunan, a'i bod yn ymwybodol o'r ddau, yna dylid gorfodi'r Rhybudd Talu Cosb.

## *Cofnodion o Dramgwyddiadau Parcio yn y Gorffennol*

Cedwir cofnodion pob tramgwyddiad parcio ar system gyfrifiadurol. Adolygir cofnodion pob tramgwyddiad parcio y mae perchennog cerbyd wedi'i wneud cyn penderfynu ar sut i ymateb i unrhyw sylwadau.

## *Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus*

Gall Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus aros yn rhywle er mwyn deithwyr fynd a dod o'r cerbyd (oni bai y sefydlwyd gwaharddiadau penodol).

Ni chaniateir i Gerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus heb fod ar ddyletswydd barcio'n groes i'r gwaharddiadau a bydd y rhain yn cael eu trin fel unrhyw gerbyd arall.

Gall Bysiau Gwyliau barcio er mwyn i deithwyr allu mynd a dod ohono. Fodd bynnag allan nhw ddim parcio'n groes i'r cyfyngiad am gyfnod cyn neu ar ôl i'r teithwyr fynd neu ddod o'r bws.

## *Cerbydau Cyfleustodau Cyhoeddus*

Gweler "Dyletswyddau Argyfwng" a "Cherbydau Eithriedig".

## *Atebolrwydd Perchennog Cofrestredig*

Mae'r detholiad canlynol o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 yn amlinellu pwy sy'n gyfrifol am dalu rhybudd cosb unwaith y mae wedi'i gyflwyno:

**Y person sydd i dalu rhybudd cosb**

(1) Pan fydd tramgwyddiad parcio'n digwydd, penderfynir pwy a ddylai dalu'r gosb am y tramgwyddiad yn unol â'r darpariaethau canlynol yn y rheoliadau hyn.
(2) Mewn achos nad yw'n dod o dan baragraff (3) dylai'r rhybudd cosb gael ei dalu gan y person a oedd yn berchennog y cerbyd a oedd â rhan yn y tramgwyddiad ar yr adeg o dan sylw.
(3) Pan:
   a) yw'r cerbyd yn un yn cael ei yrru gan beiriant ac a oedd, ar yr adeg o dan sylw, wedi'i logi gan gwmni llogi cerbydau o dan gytundeb llogi;
   b) oedd y person a oedd yn llogi wedi llofnodi datganiad yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw rybudd talu cosb ynghylch tramgwyddiad parcio'r cerbyd yn ystod cyfnod y cytundeb llogi; ac
   c) mewn ymateb i rybudd a gafodd ei gyflwyno iddo, cyflwynodd perchennog y cerbyd sylwadau ar sail y rheoliad penodol 4(4)(d) yn Rheoliadau Cyflwyniadau ac Apeliadau ac mae'r awdurdod gorfodi wedi derbyn fod y sylwadau hynny'n ddilys,

mae'n rhaid i'r rhybudd cosb gael ei dalu gan y person a logodd y cerbyd a bydd y person hwnnw'n cael ei drin wedyn fel pe byddai'n berchennog y cerbyd yn ystod yr adeg o dan sylw at ddibenion y Rheoliadau.

Yn y rheoliad hwn -

- mae 'cytundeb llogi' a 'chwmni llogi cerbydau' yn golygu'r un peth a'r hyn sydd yn adran 66 o Ddeddf Troseddwyr Traffig y Ffordd 1988; a
- Golyga "yr adeg o dan sylw" yr amser pan ddywedir i'r tramgwyddiad a achosodd y rhybudd cosb ddigwydd.

## *Parcio i Drigolion (Ar y Stryd)*

PARCIO I DRIGOLION

- Rhaid i hawlen trigolyn gael ei arddangos yn glir ar ffenestr flaen y cerbyd. Dim ond ar gyfer y parthau / strydoedd sy'n cael eu dangos ar yr hawlen, y rhif cofrestru a than y dyddiad gorffen sy'n cael ei ddangos arno y mae hawlen yn ddilys.
- Mae peidio â dangos hawlen trigolyn yn ôl y gofyn yn dramgwyddiad a bydd yn golygu y cyflwynir Rhybudd Talu Cosb na fydd yn cael ei diddymu oni bai bod amgylchiadau lliniaru pam nad oedd yr hawlen yn cael ei dangos.
- Mae defnyddio hawlen mewn parth / stryd wahanol i'r rhai a nodir ar yr hawlen, neu newid y dyddiad pan ddaw i ben, hefyd yn dramgwyddiad y bydd Rhybudd Talu Cosb yn cael ei gyflwyno yn ei gylch. Unwaith eto, ni fydd y Rhybudd Talu Cosb yn cael ei ddiddymu oni bai bod rhesymau sy'n cyfrif yn llawn am y tramgwyddiad.

HAWLENNI YMWELWYR

- Gall trigolion gael hawlenni ymwelwyr a'u rhoi i ymwelwyr dilys â'u cartrefi. Rhoddir cyfarwyddiadau llawn gyda'r hawlenni ynghylch sut i'w defnyddio a'u harddangos. Dim ond ar gyfer y parth(au) / stryd(oedd) y maen nhw ar eu cyfer y mae hawlenni'n ddilys.
- Mae peidio â dangos hawlen trigolyn yn ôl y gofyn yn dramgwyddiad a bydd yn golygu y cyflwynir Rhybudd Talu Cosb na fydd yn cael ei diddymu oni bai bod amgylchiadau lliniaru pam nad oedd yr hawlen yn cael ei dangos.
- Mae defnyddio hawlen mewn parth / stryd wahanol i'r un a nodir ar yr hawlen ac ar ddyddiad gwahanol i'r un sy'n cael ei ddangos ar yr hawlen hefyd yn dramgwyddiad y bydd Rhybudd Talu Cosb yn cael ei gyflwyno yn ei gylch. Unwaith eto, ni fydd y Rhybudd Talu Cosb yn cael ei ddiddymu oni bai bod rhesymau sy'n cyfrif yn llawn am y tramgwyddiad.

ARHOSIAD BYR

- Mewn rhai parthau parcio / strydoedd i drigolion, dim ond am ychydig y gellir parcio. Dylid edrych ar yr arwyddion yn y parthau hynny i weld am ba mor hir y gellir parcio.
- Rhoddir Rhybudd Talu Cosb ar gerbydau sy'n aros yn hwy na'r amser a ganiateir ac ar y rhai heb fod yn dangos hawlen.

## *Arwyddion / Marciau Ffyrdd – Ar Goll, Wedi'u Cuddio neu Wedi Torri*

1. Llinellau Melyn:
   a) Pan honnir fod llinell(au) melyn wedi treulio neu wedi'u cuddio gan waith trwsio'r ffordd bydd yr ardal yn cael ei harchwilo ar unwaith ac unrhyw waith adfer yn cael ei wneud gynted â bo modd. Ni fydd hyn, fodd bynnag, yn gwarantu y diddymir Rhybudd Talu Cosb
   b) Pan fydd y tywydd yn cuddio'r llinellau (e.e. eira neu dywod wedi'i chwythu) yna dylid eu clirio gynted â bo modd.
   c) Os cadarnheir fod yr honiad yn ddilys yna dylid diddymu'r Rhybudd Talu Cosb. Ystyrir y bydd yr honiad yn ddilys os na allai'r modurwr fod yn sicr a oedd cyfyngiad parcio ar y ffordd ai peidio. Lle y gellir gweld y llinellau'n glir, hyd yn oed os ydyn nhw wedi treulio'n rhannol, bydd y Rhybudd Talu Cosb yn cael ei orfodi ond dylid sicrhau y bydd y llinellau'n cael eu hadnewyddu.

2. Marciau cerbiau: (Cyfyngiadau Llwytho) fel y llinellau melyn uchod.

3. Arwyddion Wedi'u Cuddio:
   a) Mae'n rhaid gallu gweld arwyddion gwybodaeth ynghylch cyfyngiadau aros neu lwytho yn glir ar bob adeg. Os honnir fod arwydd wedi'i guddio ac na ellid ei ddarllen (e.e. graffiti, y tywydd, brigau coed) dylid archwilio'r arwydd gynted â bo modd a'i adfer. Edrychir ar gofnodion ffotograffig y Swyddog Gorfodi Sifil. Os cadarnheir fod yr honiad yn ddilys yna dylid ystyried diddymu'r Rhybudd Talu Cosb.
   b) Os yw'n hawdd darllen yr arwydd bydd y Rhybudd Talu Cosb yn cael ei orfodi ond dylid sicrhau fod yr arwydd mewn cyflwr rhesymol gynted â bo modd.

4. Arwyddion ar Goll: Os honnir nad oedd arwydd yn bodoli, dylid archwilio gynted â bo modd ac, os cadarnheir yr honiad, dylid trefnu gosod un yn ei le. Ni fydd un plât amser coll yn cael ei gyfrif fel arfer fel rheswm dros gredu nad oedd arwyddion priodol ar y cyfyngiad. Nid oes gofyn codi platiau amser lle mae cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl).

5. Cyfyngiadau a farciwyd ar ôl i'r cerbyd barcio: Gall Rhybudd Talu Cosb gael ei ddiddymu os yw'r cofnodion yn cadarnhau ei bod yn bosibl y gosodwyd arwyddion, llinellau neu gonau neu rybuddion gohirio ar ôl i'r cerbyd gael ei barcio.

## *Cerbydau’r Post Brenhinol a Darparwyr Gwasanaethau Cyffredinol*

Mae cerbydau sy’n cael eu defnyddio i gasglu neu ddosbarthu pecynnau post yn cael eu heithrio o’r rheoliadau cyn belled ag y gellir gweld eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith hwnnw. Bydd cerbydau yn parcio am fwy na 10 munud heb arlliw eu bod ar waith yn cael eu trin yr un fath â cherbydau modurwyr cyffredin a dylid cyflwyno Rhybudd Talu Cosb. Nid ystyrir diddymu'r Rhybudd oni bai y ceir cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth y rheolwr ardal fod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd i gasglu neu ddosbarthu'r post.

## *Faniau Diogeledd*

Bydd yn rhaid i faniau diogeledd arian parod barcio’n agos i eiddo weithiau er mwyn gallu danfon neu gasglu arian parod yn ddiogel. Dylid diddymu Rhybuddion Talu Cosb o dan y fath amgylchiadau os ceir cadarnhad gan y cwmni diogeledd eu bod ar waith yr adeg hynny oni bai ei bod yn amlwg fod y cerbyd wedi parcio am yn hwy nag oedd angen.

Disgwylir i faniau diogeledd yn danfon post neu eitemau heb fod yn llawer o werth gydymffurfio gyda’r cyfyngiadau traffig.

## *Masnachwyr Stryd*

Ni chaniateir i gerbydau masnachwyr stryd megis ceginau symudol a faniau hufen ia barcio’n groes i gyfyngiadau parcio.

Os gwelir fod cerbyd masnachwr stryd wedi'i barcio'n groes i Orchymyn Rheoleiddio Traffig bydd y Swyddog Gorfodi Sifil yn cynghori gyrrwr y cerbyd i'w symud. Os nad yw’r gyrrwr yn derbyn y cyngor, bydd y Swyddog yn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb.

## *Cilfanau Gohiriedig*

CILFANNAU PARCIO, MEDDYGON, TRIGOLION, BUSNESAU, RHANNU DEFNYDD

Pan dderbynnir sylwadau yn honni fod cerbyd wedi'i barcio mewn man lle mae'r defnydd wedi'i ohirio a heb dderbyn rhybudd o hynny ac, ar ôl ymchwilio, y gwelir fod yr honiad yn gywir, dylid ystyried diddymu'r Rhybudd Talu Cosb cyn belled â bod hawlen ddilys wedi cael ei harddangos. Fel arfer y gyrrwr sy'n gyfrifol am sicrhau fod y cerbyd yn cael ei barcio'n unol ag unrhyw ohiriadau yn y rheoliadau. Fodd bynnag, y perchennog cofrestredig sy'n gyfrifol am dalu unrhyw rybudd talu cosb a roddir ar y cerbyd.

Fodd bynnag, pan fo cerbyd wedi'i barcio'n gyfreithlon mewn cilfan ddynodedig, a'r hawliau parcio'n cael eu gohirio ar ôl hynny, ystyrir ei fod wedi'i barcio'n gyfreithlon gan na ellir dyfarnu'n ôl ddilynol ei fod yno'n anghyfreithlon. Dylid cofnodi'r cerbydau oedd wedi parcio yno pan osodwyd y gohiriad. Fodd bynnag, os yw’r cerbyd yn aros wedi’i barcio’n groes i’r gohiriad am beth amser bydd yn rhaid i’r perchennog ddangos nad oedd yn ymwybodol o’r gohiriad (e.e. ar wyliau).

## *Tariff – Codi Taliadau Parcio heb Gyhoeddusrwydd*

Gallwn dderbyn sylwadau yn erbyn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb os gall perchennog cerbyd ddangos prawf na chodwyd y rhybuddion statudol yn unol â’r rheoliadau gweithdrefnol neu os nad oedd y tariff newydd ar y bwrdd tariff.

## *Rhesi Tacsi*

Mae’n rhaid i’r Cyngor wneud gorchmynion ar gyfer Rhesi Cerbydau Hacni. Dangosir hysbysiad ym mhob rhes tacsi yn dangos maint y rhes, faint o Gerbydau Hacni a gaiff fod yno ac unrhyw reoliadau arbennig sy’n berthnasol. Bydd unrhyw gerbyd nad yw’n Gerbyd Hacni (gan gynnwys Cerbydau Llogi Preifat) sy’n parcio ar res o’r fath yn derbyn Rhybudd Talu Cosb. Bydd unrhyw gerbyd, gan gynnwys Cerbyd Hacni, sy'n parcio y tu allan i'r rhes yn groes i'r cyfyngiad parcio yn cael Rhybudd Talu Cosb.

Mae'n rhaid i yrwyr pob cerbyd Hacni a Llogi Preifat gario ac arddangos trwydded (bathodyn) a bydd yn rhaid i hwn fod ar gael i unrhyw berson cyfrifol (gan gynnwys Swyddogion Gorfodi Sifil) ei weld a'i wirio.

**Gweler hefyd “Cerbydau Hacni / Llogi Preifat”**

## *Graddnodi Amser / Dyddiad y Cyfrifiadur Llaw*

Cyn dechrau pob shifft bydd yn rhaid i bob Swyddog Gorfodi Sifil raddnodi ei gyfrifiadur llaw er mwyn sicrhau ei fod yn dangos yr amser a’r dyddiad cywir.

## *Cefnffyrdd*

Cyfrifoldeb yr Asiantaeth Gefnffyrdd yw’r cefnffyrdd. Fodd bynnag, bydd Cynghorau’n gorfodi cyfyngiadau parcio ar y prif gefnffyrdd yn ôl y gofyn.

## *Symud Cerbyd heb Awdurdod*

1. Cerbyd wedi'i ladrata. Bydd cadarnhad yr hysbyswyd yr Heddlu fod cerbyd wedi'i ladrata pan gyflwynwyd y Rhybudd Talu Cosb, gan gynnwys derbyn yr adroddiad trosedd perthnasol, yn arwain at ddiddymu'r Rhybudd Talu Cosb.
2. Mae’n anodd cadarnhau honiadau fod aelod arall o’r teulu neu gyfaill wedi defnyddio cerbyd heb ganiatâd ac o dan y fath amgylchiadau bydd Rhybudd Talu Cosb yn cael ei orfodi oni bai y gellir dangos yr hysbyswyd yr Heddlu o’r mater cyn neu yn union ar ôl cyflwyno’r Rhybudd Talu Cosb. .

## *Gwisg – Swyddogion Gorfodi Sifil*

Mae’r Ddeddf Rheoli Traffig y Ffordd 1984 (Adran 63A[4]) yn datgan: “Bydd yn rhaid i Swyddogion Parcio (Swyddogion Gorfodi Sifil)… wisgo'r fath wisg ag y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei bennu wrth ymarfer swyddogaethau penodol ac ni ddylid ymarfer yr un o’r swyddogaethau hynny heb fod yn gwisgo'r wisg" Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu fod yn rhaid: “i’r wisg ymddangos yn wahanol i wisg yr heddlu a’r Gwasanaeth Gwardeiniaid Traffig a rhaid iddi gynnwys y canlynol”:

1. Dangos yn glir fod y person sy'n ei gwisgo yn Swyddog Gorfodi Sifil.
2. Dangos yn glir ar ran pa Awdurdod Lleol y mae'r Swyddog Gorfodi Sifil yn gweithredu.
3. Dangos rhif personol er mwyn adnabod y Swyddog Gorfodi Sifil a gall hynny gynnwys llythrennau yn ogystal â rhif.

Bydd pob Swyddog Gorfodi Sifil yn gwisgo *epaulettes* pan ar wasanaeth ac wrth roi Rhybuddion Talu Cosb (does dim rhaid gwisgo het na chap). Bydd yr *epaulettes* yn dangos rhif y Swyddog Gorfodaeth Sifil unigol a’i fod ar ddyletswydd Gorfodi Parcio.

Mae gofynion gwisg swyddogol hefyd wedi’u cynnwys yng Nghanllawiau Gweithredol Gorfodi Parcio Sifil a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru

## *Cerbydau wedi'u Fandaleiddio*

Pan fo cerbyd wedi fandaleiddio i gymaint graddau nes na ellir ei symud yn ddiogel bydd unrhyw Rybudd Talu Cosb a roddwyd yn cael ei ddiddymu cyn belled y ceir tystiolaeth dderbyniol o gadarnhad. Dylai'r dystiolaeth ddod oddi wrth un ai:

1. Yr Heddlu – gan ddyfynnu'r rhif trosedd
2. Sefydliad Modur / Gwasanaeth Garej a symudodd y cerbyd oddi ar y safle.

Mae'n rhaid ystyried hefyd y sylwadau a gofnododd y Swyddog Gorfodi Sifil yn y llyfr nodiadau cyn belled ag y bo hynny'n dangos yn glir faint y difrod. Bydd methu â chyflwyno tystiolaeth o gadarnhad neu ddiffyg sylwadau gan y Swyddog Gorfodi Sifil yn arwain at orfodi'r Rhybudd Talu Cosb.

## *Cerbydau wedi'i gadael i gael mynediad*

Pan fo'n rhaid i yrrwr gasglu goriadau i gael mynediad i eiddo ni ddylai hyn gymryd mwy na 5 munud a bydd hynny'n cyd-fynd â chyfnod sylwi 5 munud y Swyddog Gorfodi Sifil. O dan y fath amgylchiadau ni ddylid gadael cerbydau am gyfnodau hwy neu yn groes i gyfyngiadau 'dim aros' neu gyfyngiadau llwytho. Fodd bynnag, dylid ystyried pob achos yn unigol a thalu sylw i amgylchiadau arbennig.

## *Cerbydau wedi'u lladrata*

Byddwn yn derbyn sylwadau yn erbyn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb os yw'r cerbyd wedi'i gymryd heb ganiatâd y perchennog ond yn amodol ar dderbyn tystiolaeth foddhaol. Gofynnir i'r perchennog cofrestredig am adroddiad trosedd dilys gan yr heddlu gan gynnwys y cyfeirif' trosedd.

## *Ymwelwyr â gwledydd Prydain*

Os yw Rhybudd Talu Cosb yn cael ei roi ar gerbyd gyda rhif cofrestru tramor dylai'r system brosesu ei adnabod yn awtomatig fel rhif cofrestru nad yw ar ffurf yr Asiantaeth Drwyddedu Cerbydau a Gyrwyr. Os ceir taliad, bydd yn cael ei dderbyn yn y ffordd arferol. Felly hefyd, dylid trin pob gohebiaeth a sylwadau yn y ffordd arferol. Os rhoddir Rhybudd Talu Cosb ar gerbyd wedi'i gofrestru yn y DU ac sydd wedi'i fenthyca i neu sy'n cael ei yrru gan rywun o dramor, dylid gorfodi'r Rhybudd Talu Cosb yn erbyn y perchenog(ion) cofrestredig gan mai nhw sy'n gyfrifol amdano.

## *Cerbydau Cludiant Gwirfoddol Cleifion*

Nid yw arddangos cerdyn 'Cludiant Gwirfoddol Cleifion' yn eithrio'r deilydd yn awtomatig o'r cyfyngiadau parcio. Fodd bynnag, dylid rhoi'r ystyriaeth briodol i sylwadau neu heriau yn erbyn cyflwyno Rhybudd Talu Cosb o gofio fod hwn yn wasanaeth gwirfoddol i gludo'r henoed a'r gwael i ac o'r ysbyty.

Yn gyffredinol, dylai'r ystyriaeth ymestyn i:

1. Roi digon o amser i'r gyrrwr ddangos i'w deithiwr / deithwyr ei fod wedi cyrraedd
2. Roi digon o amser iddo roi cymorth i'r teithiwr / teithwyr fynd o'r cerbyd i'r cartref, ac fel arall, o gofio y gallen nhw fod yn hen, yn simsan, yn anabl neu'n sâl. Gallai hyn yn hawdd olygu fod yn rhaid caniatau digon o amser er mwyn i'r gyrrwr sicrhau fod y teithiwr yn gyfforddus yn ei gartref cyn iddo adael.

Dylai sylwadau / heriau gynnwys tystiolaeth ddogfennol yn rhoi'r dyddiad, amser, lle y codwyd a lle y gollyngwyd ac, lle gellir, disgrifiad o'r teithydd (h.y. Hen, Anabl, Wedi cael Llawdriniaeth ayb).

# DIFFINIADAU

Mae’r canlynol yn ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir yn aml ar gyfer gorfodaeth parcio.

## *Tystysgrif Cyhuddiad*

Cyflwynir Tystysgrif Cyhuddiad:

1. 31 diwrnod ar ôl cyflwyno Rhybudd i Berchennog ac na dderbyniwyd Sylwadau Ffurfiol ar ôl hynny.
2. 31 diwrnod ar ôl i Rybudd Gwrthod gael ei anfon ar ôl derbyn Sylwadau Ffurfiol ac na wnaed apêl i Dribiwnlys Cosbau Traffig.
3. 18 diwrnod ar ôl tynnu apêl yn ôl o'r Tribiwnlys Cosbau Traffig (h.y. tynnu'n ôl cyn y gwrandawiad)
4. 31 diwrnod ar ôl i apêl gael ei gwrthod gan y Tribiwnlys Cosbau Traffig.

Pan gyflwynir Tystysgrif Cyhuddiad bydd swm y gosb yn cael ei gynyddu o 50%. Bydd Rhybuddion Talu Cosb a gyflwynwyd ar gyfradd o £70 yn cael eu cynyddu i £105. Bydd Rhybuddion Talu Cosb a gyflwynwyd ar gyfradd o £50 yn cael eu cynyddu i £75. Anfonir y Tystysgrif Cyhuddiad i geidwad y cerbyd yn gofyn am y tal newydd yn llawn o fewn 14 diwrnod.

## Cerbyd Masnachol - Diffiniad

Mae’r diffiniad o gerbyd masnachol at ddibenion y weithdrefn hon fel a ganlyn:

- Bysiau
- Cerbydau Hacni
- Cerbydau Hurio Preifat
- Cerbydau Nwyddau Trwm
- Faniau – gall fan ymddangos fel cerbyd modur preifat ond bydd rhai, os nad y cyfan, o’r ffenestri ôl wedi’u blocio.

## *Cofrestru Dyled*

- Gwneir hyn yn electronig yn y Ganolfan Gorfodi Traffig yn Llys Sirol Northampton ar neu ar ôl 18 diwrnod yn dilyn cyflwyno Tystysgrif Cyhuddiad.
- Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gadarnhau wrth y Llys fod y Tystysgrif Cyhuddiad wedi'i gyflwyno ac mae'r llys yn codi ffi o £7 am bob cofrestriad. Ychwanegir hyn at y swm sy’n ddyledus i’r Llys.

## *Cofrestru Dyled - Hysbysiad*

- Unwaith y bydd y ddyled wedi'i chofrestru yn y Ganolfan Gorfodi Traffig, anfonir Gorchymyn Adfer a ffurflen Datganiad Tyst at y dyledwr yn dweud ganddo / ganddi 21 diwrnod i dalu'r swm sy'n ddyledus neu dyngu datganiad tyst ar lw.
- Bydd peidio â gwneud un o’r ddau yn golygu y bydd y Cyngor yn gofyn i’r Ganolfan Gweithredu Traffig am Warant i Weithredu.
- Ar ôl i'r Cyngor gael y Warant bydd yn gallu penodi Asiant Gorfodi i gasglu'r ddyled ar ei ran.

## *Goddeb*

- Caniatâd swyddogol a roddir gan Awdurdod Lleol i gerbyd barcio yn groes i gyfyngiad aros neu lwytho – h.y. er mwyn gallu cynnal a chadw eiddo cyfagos.

## *Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)*

- Canolfan y Llywodraeth sy'n gyfrifol am gynnal holl gofnodion cerbydau a'u perchnogion cofrestredig a Thrwyddedau Gyrru.

## *Nwyddau - Diffiniad o pan mae'n berthnasol i Lwytho / Dadlwytho*

- Mewn honiadau o lwytho / dadlwytho, nwyddau a ganiateir yw'r rhai sydd mor fawr â / neu drwm nes bod gofyn parcio'r cerbyd ger y man lle maen nhw'n cael eu casglu neu eu danfon.
- Os yw cerbyd masnachol yn danfon nwyddau i eiddo masnachol neu fusnes ystyrir fod hynny'n cydymffurfio â'r uchod.
- Ni fydd danfon / casglu eitemau bychan hawdd eu cario i neu o gerbyd preifat yn cyfrif fel llwytho / dadlwytho oni bai fod person hen, anabl neu ansad yn gwneud hynny ac y byddai gorfodi'r cyfyngiad yn achosi caledi.
- Ym mhob achos ni ddylai'r cerbyd fod yn cael ei barcio am yn hwy nag sydd angen ond dylid caniatau amser i nodiadau danfon ayb gael eu llofnodi.

## *Ymholiad Peidio Talu Cosb ac Ymateb i'r Asiantaeth Gyrwyr a Cherbydau - VQ4 a VQ5*

- Pan yw Rhybudd Talu Cosb heb ei dalu am 28 diwrnod bydd y Cyngor yn holi'r Asiantaeth i geisio canfod pwy yw perchennog y cerbyd. Gwneir yr ymholiad yn electronig drwy system gorfodi parcio'r Cyngor.
- Mae'r ymateb oddi wrth yr Asiantaeth hefyd yn electronig ac mae'n cael ei fwydo'n awtomatig i system y Cyngor. Derbynnir ymateb fel rheol o fewn 3 diwrnod o ymholi.

## *Rhybudd i Berchennog*

- Os yw Rhybudd Talu Cosb yn dal heb ei dalu o fewn 28 diwrnod bydd Partneriaeth Prosesu Parcio Cymru yn holi'r Asiantaeth Trwyddedau Gyrwyr a Cherbydau i geisio canfod pwy yw'r perchennog cofrestredig. Unwaith y gwneir hyn, anfonir Rhybudd i Berchennog Cyfreithiol at y perchennog yn dweud nad yw'r Rhybudd Talu Cosb wedi'i dalu.
- Bydd y rhybudd yn cynnwys manylion llawn o'r Rhybudd Talu Cosb a roddwyd ac yn gofyn am dâl o fewn 28 o'i dderbyn a hefyd yn rhoi cyfle i'r perchennog gyflwyno Sylwadau Ffurfiol yn erbyn cyflwyno'r Rhybudd Talu Cosb, a bydd yn rhaid gwneud hynny hefyd o fewn 28 diwrnod.

## *Rhybudd Talu Cosb*

Mae'n cael ei roi ar adeg y tramgwyddiad honedig ac mae'n rhaid ei ludo ar y cerbyd , ei roi i'r gyrrwr neu ei anfon drwy'r post (mewn achos pan yrrwyd y cerbyd i ffwrdd cyn y gellid rhoi'r Rhybudd arno neu pan gafodd y Swyddog Gorfodi Sifil ei rwystro rhag rhoi'r Rhybudd i'r gyrrwr).

Bydd y Rhybudd Talu Cosb yn dangos

a) Y dyddiad y cafodd y rhybudd ei gyflwyno
b) Enw'r awdurdod gorfodi
c) Rhif cofrestru'r cerbyd yr honnir oedd â rhan yn y tramgwyddiad honedig
d) Y dyddiad a'r amser pan ddigwyddodd y tramgwyddiad honedig
e) Y sail i gred y swyddog gorfodi sifil fod cosb yn daladwy
f) Swm y gosb sydd i'w thalu
g) Bod yn rhaid talu'r gosb cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod
h) Bydd y gosb yn cael ei gostwng o 50% os yw'n cael ei thalu ymhen 14 diwrnod yn dechrau gyda'r dyddiad y cafodd y rhybudd ei gyflwyno
i) Sut y gellir talu'r gosb
j) Os nad yw'r gosb yn cael ei thalu ar neu cyn y cyfnod o 28 diwrnod gall yr awdurdod gorfodi gyflwyno rhybudd i berchennog i berchennog y cerbyd; a
k) Bydd hawl gan y person sy'n derbyn y Rhybudd i Berchennog i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod gorfodi yn erbyn y gosb a gall apelio i ddyfarnydd neu ganolwr os yw'r sylwadau hynny'n cael eu gwrthod; ac

l) Os yw'r sylwadau yn erbyn y gosb yn cael eu derbyn yn y cyfeiriad sy'n cael ei ddangos ar gyfer y diben hwnnw cyn y bydd Rhybudd i Berchennog yn cael ei anfon -
   I. bydd y sylwadau hynny'n cael eu hystyried
   II. ond, os yw Rhybudd i Berchennog yn cael ei gyflwyno er gwaethaf y sylwadau hynny, rhaid cyflwyno sylwadau yn y fath ffurf ac yn y fath fodd ac o fewn y cyfnod a bennir yn y rhybudd i berchennog.

## *Perchennog Cofrestredig*

Y Person(au) neu'r sefydliad sydd wedi'u cofrestru gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau fel yr un / rhai sy'n gyfreithiol gyfrifol am y cerbyd - nid y Perchennog Cofrestredig o angenrheidrwydd yw'r Perchennog neu'r Gyrrwr.

## *Gohirio Cilfan Barcio*

Gohirio parcio mewn cilfan(nau) parcio dynodedig. Hysbysir hynny drwy arddangos arwyddion gerllaw a thrwy anfon hysbysiadau, o flaen llaw, i eiddo cyfagos.

## *Canolfan Gorfodaeth Traffig*

Mae'r Ganolfan yn Northampton ac mae'n gangen o'r Llys Sirol sy'n delio'n benodol gyda thramgwyddiadau traffig.

## *Tribiwnlysoedd Cosbau Traffig*

- Corff annibynnol yn cael ei gynnal gan danysgrifiadau Awdurdodau Lleol drwy godi tâl am bob Rhybudd Talu Cosb a gyflwynir.
- Unwaith y bydd sylwadau ffurfiol yn erbyn Rhybudd Talu Cosb wedi'u gwrthod rhoddir cyfle i berchennog y cerbyd apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig o fewn 28 o'r gwrthodiad.
- Bydd y Tribiwnlys yn adolygu'r achos ac yn dod i benderfyniad annibynnol ynghylch dilysrwydd y tocyn yn seiliedig yn unig ar ei gyfreithlondeb. Ni fydd y Tribiwnlys yn ystyried amgylchiadau lliniaru ond bydd yn disgwyl, yn realistig, y bydd yr Awdurdod Lleol, yn gwneud hynny cyn i'r mater gael ei ddwyn i'w sylw. Os yw'r Tribiwnlys o'r farn y dylid talu sylw i amodau lliniaru ni fydd yn caniatáu'r apêl ond bydd yn gwneud ei farn yn hysbys i'r Awdurdod Lleol.
- Mae dyfarniad y Tribiwnlys Cosbau Traffig yn derfynol ac yn rhwymo'r ddau barti.
- Mae gwybodaeth bellach ar gael ar www.trafficpenaltytribunal.gov.uk